# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 15 MAWRTH, 2023am 2.00 o'r gloch yp** | **WEDNESDAY, 15 MARCH, 2023 at 2.00 p.m.** |
| **CYFARFOD HYBRID – YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor**   **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-
**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, Trefor Ll Hughes MBE, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Sedd Wag/Vacant Seat - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Sedd Wag/Vacant Seat (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganid o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gafwyd ar 7 Chwefror, 2023.

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB: 2021/22** (Tudalennau 9 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

**5 RHAGLEN CRONFA FFYNIANT BRO YNYS MÔN** (Tudalennau 53 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**6 ADRODDIAD CYNNYDD CH3: 2022/23 BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 77 - 102)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**7 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 103 - 110)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn hybrid ar 7 Chwefror 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, T Ll Hughes MBE, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret M Roberts a Ken Taylor.<br><br>**Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (a wahoddwyd i fod yn bresennol)**<br><br>Y Cynghorwyr Robert Ll Jones (Cadeirydd), Glyn Haynes, Jackie Lewis, Llio A Owen, Keith Roberts.<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor); Y Cynghorydd Gary Pritchard (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Plant – Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Ieuenctid); Y Cynghorydd Alun Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaethau Cymdeithasol); Y Cynghorydd Dafydd R Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Uwch Reolwr (Sector Uwchradd) (AE),<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr John Ifan Jones ac Euryn Morris (Aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio).<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb a Dyfed W Jones (Aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)<br><br>Y Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd); Y Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Gymraeg). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE).<br>Ms Gwenno Jones (Arweinydd Craidd Ynys Môn – GwE) |

---

Cyfeiriwyd at y ddaeargryn sydd wedi achosi trychineb echrydus ar y ffin rhwng Twrci a Syria, gan ladd miloedd o bobl. Cynhaliodd yr Aelodau a'r Swyddogion funud o dawelwch fel arwydd o barch.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023, yn gywir.

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE AR GYFER YNYS MÔN 2021/2022

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Ynys Môn 2021/2022.

Yn absenoldeb yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Adroddiad Blynyddol GwE yn amlygu'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2021/22. Nododd hefyd fod yr adroddiad yn cyfeirio at y rhaglen waith a'r cymorth a dderbyniodd ysgolion gan yr awdurdod lleol a GwE yn ystod y pandemig i liniaru'r effaith ar ddisgyblion. Roedd yr Arweinydd yn dymuno diolch i gynrychiolwyr GwE am y cymorth a'r arweiniad sy'n cael ei roi ganddynt i ysgolion yn ddyddiol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Gwasanaethau Ieuenctid fod gorgyffwrdd rhwng y Portffolio Addysg a'r Portffolio Gwasanaethau Plant mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a'u hanghenion addysgol. Nododd fod yr adroddiad yn trafod ymwybyddiaeth o drawma a bod tair ysgol gynradd yn cael eu nodi fel ysgolion sy'n ystyriol o drawma. Ychwanegodd fod perthynas weithio agos yn bodoli gyda GwE ers bron i ddeg mlynedd ac mae'r adroddiad yn amlygu nid yn unig yr elfennau addysgol, ond materion lles a gafodd eu cynnal yn ystod y pandemig.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr Awdurdod Lleol yn gweithio mewn partneriaeth agos ac effeithiol gyda GwE. GwE yw'r consortiwm addysg rhanbarthol ar gyfer gogledd Cymru ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â gwasanaeth Dysgu Ynys Môn o ran gwella ysgolion, rhannu arfer da, gwybodaeth a sgiliau, gwella cryfderau a datblygu capasiti. Mae adroddiad Estyn ar yr arolygiad o Wasanaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022 yn amlygu'r gwaith partneriaeth. Nododd fod Estyn, yn ystod yr arolygiad, wedi nodi dau argymhelliad i'r Awdurdod Lleol eu rhoi ar waith, sef cryfhau prosesau ar gyfer arfarnu effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu a datblygu a chryfhau trefniadau sgriwtini ffurfiol. Mae'r Panel Sgriwtini Addysg yn craffu'n rheolaidd ar waith y Gwasanaeth Dysgu (gan gynnwys gwaith GwE). Fodd bynnag, i gryfhau'r broses sgriwtini, ac ymateb i argymhellion Estyn, mae'r Pwyllgor hwn yn craffu ar waith y Gwasanaeth Dysgu a'i bartneriaid yn flynyddol. Ychwanegodd fod y gwasanaeth

dysgu'n wynebu cyfnod o newidiadau sylweddol, gyda Chwricwlwm newydd a'r Ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, ynghyd â heriau ariannol, recriwtio staff a'r ymateb yn dilyn covid. Fel rhan o'r diwygiadau hyn, mae'r broses atebolrwydd yn esblygu, gan gynnwys adrodd ar addysg a chraffu arno, ac mae hyn yn cynnwys perfformiad ac effeithiolrwydd ysgolion. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc hefyd at y Canllawiau Gwella Ysgolion newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac a fydd yn statudol o fis Medi 2024. Bydd y canllawiau'n cryfhau systemau atebolrwydd, gydag ysgolion yn cael eu dal i gyfrif yn uniongyrchol gan eu cyrff llywodraethu ac Estyn am ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd dysgwyr. Yn ogystal, mae'r canllawiau'n nodi'n glir fod pob partner yn rhan o'r broses, ac mae atebolrwydd clir ar y gwasanaethau cymorth megis y Gwasanaeth Dysgu a GwE. Bydd angen cydweithio agos rhwng Awdurdod Lleol Ynys Môn a GwE wrth ddarparu cefnogaeth yn seiliedig ar y blaenoriaethau gwella yng nghynllun datblygu pob ysgol. Gall y Pwyllgorau Sgriwtini graffu ar effeithiolrwydd y cydweithio rhwng yr Awdurdod Lleol a GwE a monitro'r gwaith o gefnogi a gwella ysgolion sy'n peri pryder.

Adroddodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod Adroddiad Blynyddol 2021/22 yn amlinellu sut y bu i staff GwE addasu eu gwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chefnogi ysgolion yn ystod y pandemig. Mae'r adroddiad hefyd yn disgrifio sut y mae GwE wedi parhau i gefnogi ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer y Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm newydd i Gymru a gwella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth, llesiant a'r Gymraeg. Nododd fod cydnabyddiaeth o'r angen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE yn gynt yn rhaglen waith sgriwtini'r Awdurdod.

Wrth ystyried Adroddiad Blynyddol GwE – Cyngor Sir Ynys Môn 2021/22 trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- **Cyfeiriwyd at iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Gofynnwyd pam nad yw addysg gorfforol yn cael ei adnabod fel pwnc craidd yn y cwricwlwm newydd?**

  Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE mai nod y Cwricwlwm newydd i Gymru yw sicrhau unigolion iach a chryf a llesiant plant a phobl ifanc. Gall yr awdurdod lleol ac ysgolion sefydlu rhaglen leol i gwrdd ag anghenion ysgolion unigol a'u disgyblion. Dywedodd Arweinydd Craidd GwE ar gyfer Ynys Môn fod iechyd a llesiant wedi'i gynnwys yn y chwe maes dysgu yn y Cwricwlwm newydd a bod staff yn yr ysgolion yn derbyn cymorth i amlygu addysg gorfforol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaethau Hamdden yn gweithio'n agos i wella iechyd a llesiant plant a sefydlwyd Is-grŵp rhwng y ddau wasanaeth i hyrwyddo addysg gorfforol yn yr ysgolion ledled yr Ynys. Nododd hefyd fod cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n hyrwyddo byw'n iach ac mae yna gyfleusterau chwaraeon lleol hefyd h.y. clybiau pêl-droed a rygbi, sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon.

- **Sut ydym yn gwybod beth yw'r safonau yn ysgolion Ynys Môn?**

Dywedodd y Cadeirydd fod yr Adroddiad Blynyddol yn cyfeirio at hunanasesiadau mewn ysgolion a gofynnodd pa mor wrthrychol yw ysgolion wrth iddynt gynnal eu hunanasesiadau eu hunain. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod cynrychiolwyr o GwE yn ymweld ag ysgolion ledled yr Ynys yn rheolaidd, ac, ers mis Medi 2022, ailsefydlwyd trefniadau mewn ysgolion yn dilyn y pandemig. Nododd fod Ynys Môn wedi sefydlu 'clystyrau' sy'n caniatáu i ysgolion asesu ei gilydd a chraffu ar berfformiad yn yr ysgolion sy'n rhan o'r clwstwr penodol hwnnw. Nododd fod GwE yn rhannu'r wybodaeth gyda'r Gwasanaeth Addysg i asesu pa ysgolion sydd angen cymorth penodol. Cyfeiriodd at y cwestiwn ynghylch sut y caiff safonau ysgolion eu hasesu a nododd fod safonau pob ysgol unigol yn cael eu hasesu, ynghyd â data canlyniadau arholiadau yn yr ysgolion uwchradd. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod angen i ysgolion fod yn hunangynhaliol ac mae angen cymorth ar Brifathrawon i ddarparu'r profiadau addysg gorau. Dywedodd fod cydweithio gyda sefydliadau partner a llywodraethwyr ysgol yn hanfodol i godi safonau mewn ysgolion. Ychwanegodd ei fod yn falch o gydnabyddiaeth Estyn fod y cydweithio gyda sefydliadau partner yn cael ei ystyried yn gymorth gwerthfawr i ysgolion ar Ynys Môn. Dywedodd fod yr awdurdod lleol wedi elwa o'r bartneriaeth gyda GwE hefyd er mwyn cynnig gwasanaethau a hyfforddiant penodol mewn ymateb i anghenion ysgolion unigol a'u blaenoriaethau.

- **Nodwyd bod ysgolion Ynys Môn yn coladu data asesiadau yn unigol. Gofynnwyd a oes angen gweithredu system safonol i gasglu data asesiadau?**

  Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod pob ysgol yn gosod ei gweledigaeth ei hun mewn perthynas â'r Cwricwlwm newydd i gwrdd ag anghenion y disgyblion. Serch hynny, ceir asesiadau craidd sy'n cael eu safoni ym mhob ysgol i fonitro cynnydd academaidd. Nododd fod y Cwricwlwm yn cwmpasu oedran 3 - 16 a bod asesiadau'n cael eu cwblhau pan fydd disgyblion yn trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Sector Uwchradd) fod cyhoeddiad wedi'i wneud yn ddiweddar ynghylch creu ecosystem i goladu gwybodaeth ym mhob ysgol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd mewn perthynas â'r data perthnasol y mae angen ei gasglu a bydd hyn yn caniatáu i Lywodraethwyr fonitro cynnydd yn eu hysgolion.

- **Yn dilyn adroddiad negyddol gan Estyn ar un o ysgolion cynradd Ynys Môn yn ddiweddar yn ymwneud â phryderon am gyfathrebu yn y Gymraeg yn yr ysgol benodol hon, gofynnwyd a fyddai GwE yn gallu cefnogi'r ysgol benodol hon i wella datblygiad yr iaith Gymraeg.**

  Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod cynllun ymyrraeth ar waith mewn perthynas â'r ysgol gynradd hon a dderbyniodd adroddiad negyddol gan Estyn. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda GwE, Llywodraethwyr yr ysgol a staff yr ysgol er mwyn cefnogi pecyn gwella yn yr ysgol. Bydd rhaid i'r ysgol ddarparu adroddiadau cynnydd yn erbyn yr argymhellion penodol i Estyn, yr Awdurdod a GwE.

- **Gofynnwyd cwestiynau am y gefnogaeth a roddir i ysgolion sydd â chanran uchel o blant o gefndiroedd difreintiedig.**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y caiff cyfarfodydd eu cynnal yn rheolaidd gyda'r Gwasanaethau Plant ac mae staff penodedig yn cefnogi'r ysgolion sydd â chanran uchel o blant o gefndiroedd difreintiedig. Nododd fod rhaglen 'Prydau Ysgol am Ddim' mewn ysgolion ac mae'r rhaglen hon hefyd yn cynorthwyo i gefnogi teuluoedd y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt.

- **Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r Cyfrifiad yn ddiweddar, nodwyd fod nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys wedi gostwng. Gofynnwyd sut mae GwE yn gweithio yn yr ysgolion i ymateb i'r targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?**

  Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod y Gymraeg yn ganolog i waith GwE. O ran siarad Cymraeg, nododd fod y pandemig wedi effeithio ar blant o gartrefi Saesneg eu hiaith, a phlant ieuengach yn arbennig, gan nad oedd y plant yn clywed y Gymraeg yn ddyddiol yn ystod y cyfnod hwnnw am eu bod gartref. Dywedodd fod GwE a'r awdurdod lleol wedi bod yn gweithio'n agos â Phrifysgol Bangor ar y prosiect Llais Ni. Roedd blwyddyn gyntaf y prosiect yn llwyddiannus a nodwyd arferion da ledled gogledd Cymru. Mae'r Gymraeg fel ail iaith yn cael ei datblygu mewn rhanbarthau eraill hefyd i ymateb i darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- **Sut mae sicrhau fod pob plentyn ar Ynys Môn yn cael yr un cyfleoedd ac addysg â phlant eraill mewn clystyrau gwahanol ar yr Ynys ac mewn ardaloedd eraill yng Nghymru?**

  Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y bydd heriau wrth drosglwyddo o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, lle ceir unffurfiaeth o ran yr hyn sy'n cael ei addysgu, i'r Cwricwlwm newydd. Nododd y bydd rhaid i bob ysgol gyhoeddi eu safonau, eu darpariaeth a'u blaenoriaethau er mwyn gwella safonau'r addysg a ddarperir i ddisgyblion.

- **Yn sgil y Fframwaith Atebolrwydd newydd, beth yw'r dulliau gorau o graffu ar addysg?**

  Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Reolwr (Sector Uwchradd) fod rôl i Lywodraethwyr Ysgol fonitro atebolrwydd ysgolion a herio Penaethiaid yr ysgolion. Fodd bynnag, rôl Aelodau Etholedig yw herio swyddogion yr Awdurdod, yr Aelod Portffolio a GwE mewn perthynas â monitro effeithiolrwydd ysgolion o fewn y Fframwaith Atebolrwydd newydd.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Ynys Môn 2021/22.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

## 5 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI ADDYSG

Cyflwynwyd - adroddiad diweddaru ar gynnydd y Panel Sgriwtini Addysg. Dywedodd y Cynghorydd Gwilym O Jones, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg, mai hwn yw ail adroddiad cynnydd y Panel ac mae'n ymwneud â Chwarter 2 y flwyddyn weinyddol bresennol. Nododd fod dwy ran o dair o aelodau'r Panel yn aelodau newydd a gafodd eu hethol am y tro cyntaf yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai. Felly, mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i greu'r amodau i bob Aelod gyfrannu'n llawn at waith craffu'r Panel e.e. sgiliau ar gyfer craffu a chwestiynu effeithiol, dealltwriaeth o'r gyfundrefn Addysg, codi ymwybyddiaeth am ffrydiau gwaith cenedlaethol ym maes addysg, a'r bwriad yw manteisio i'r eithaf ar y rhaglen waith i sicrhau mewnbwn a chefnogaeth briodol ac amserol i gefnogi aelodau'r Panel Sgriwtini Addysg. Ychwanegodd y Cynghorydd Jones fod y Panel wedi cyfarfod pum gwaith yn ystod Chwarter 2 ac ystyriwyd y materion canlynol:-

- Adroddiad Arolygiad Estyn ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn
- Cwricwlwm i Gymru
- Cysgodi GwE
- Rôl a Disgwyliadau'r Fframwaith Rheoleiddio – Arweinyddiaeth Wleidyddol a Sgriwtini
- Cylch Gorchwyl a Chyd-destun Gwaith y Panel
- Canllawiau Gwella Ysgolion – Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (Llywodraeth Cymru)
- Rôl Aelodau Etholedig, Llywodraethwyr Ysgol a'r broses ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder
- Adroddiad Blynyddol GwE ar Ynys Môn: 2021/2022
- Rhaglen waith y Panel Sgriwtini ar gyfer y cyfnod Medi 2022 – Ebrill 2023

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y Panel wedi bod yn gefnogol o waith y Gwasanaeth Addysg ac mae datblygu addysg plant a phobl ifanc yn flaenllaw yng ngwaith y Panel.

Wrth ystyried Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg, trafododd y Pwyllgor y canlynol:-

- **I ba raddau y mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â chyfeiriad cychwynnol gwaith y Panel?**

  Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg fod Swyddogion Addysg a'r Rheolwr Sgriwtini yn cynghori ac yn cynorthwyo'r Panel yn ei waith. Nododd fod y Panel yn craffu ar yr adroddiadau a gyflwynir i'r Panel a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud mewn rhai meysydd yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Nododd fod cynrychiolwyr o Estyn a GwE wedi mynychu cyfarfodydd i gefnogi gwaith y Panel.

- **Ym marn y Pwyllgor Sgriwtini, pa feysydd eraill y mae angen i'r Panel Sgriwtini Addysg graffu arnynt?**

  Gan fod dwy ran o dair o aelodau'r Panel yn newydd, dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg fod trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch darparu rhaglen ddatblygu i wella sgiliau Aelodau mewn perthynas â gwaith y Panel.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini y bydd rhaglen ddatblygu bwrpasol yn cael ei rhoi ar waith, mewn cydweithrediad â Chadeiryddion y tri Phanel Sgriwtini, gan dargedu'r Panel Sgriwtini Addysg yn y lle cyntaf. Nododd fod arbenigedd cyllid wedi'i gomisiynu ar gyfer y Panel Sgriwtini Cyllid er mwyn caniatáu i'r Panel graffu ar gyllidebau ariannol y Cyngor ac ati. Y gobaith yw cynnig rhaglen gymorth debyg i'r ddau Banel arall maes o law. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd yn ofynnol i'r Panel Sgriwtini Addysg gynnwys y Cwricwlwm newydd i Gymru ar ei flaen raglen waith, yn ogystal â chasglu gwybodaeth i sicrhau fod y cyfnodau allweddol yn cael eu cyflawni er mwyn rhoi sylw i lythrennedd a rhifedd yn yr ysgolion, ynghyd ag adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod cyfeiriad y gwasanaeth addysg yn datblygu'n barhaus, yn enwedig gyda'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'r Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nododd y bydd y Panel Addysg yn gallu craffu ar y cyfnodau allweddol yn y Cwricwlwm i Gymru a datblygu gwell perthynas gydag ysgolion ar yr Ynys, a gwahodd arweinwyr yr ysgolion i drafod y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm newydd gyda'r Panel.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r cynnydd cychwynnol hyd yma mewn perthynas â gwaith y Panel Sgriwtini Addysg;**
- **Cefnogi'r bwriad i ddatblygu model sgriwtini ddiwygiedig ar gyfer materion Addysg fel sylfaen i waith y Panel Sgriwtini Addysg a'r ddau riant Bwyllgor Sgriwtini, fel y nodir yn Rhan 5, paragraff 2.7 yr adroddiad.**

**GWEITHRED: Fel y nodir uchod.**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn amlinellu Blaen Raglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2022/23.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y Flaen Raglen Waith ar gyfer 2022/23.**
- **Nodi cynnydd hyd yma wrth weithredu'r Flaen Raglen Waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40am

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 15 Mawrth 2023 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2021/22 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno'r adroddiad er sylwadau cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyiedig i'w gyhoeddi. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Dylan Rees |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg<br>01248 752520<br>FfreuerOwen@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2021/22, cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyiedig gan y Deilydd Portffolio i'w gyhoeddi. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Fe gafodd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020. Yn unol â'n hymagwedd 'Un Cyngor', mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys cysylltiadau â Chynllun y Cyngor. Mae'r adroddiad blynyddol yma ar gydraddoldeb yn ceisio parhau'r cysylltiadau hynny. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]** |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1 - Beth yw'r prif heriau sy'n ein hwynebu o ran prif lifo cydraddoldeb o fewn y Cyngor?

2 - Bydd angen cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd erbyn 1 Ebrill 2024. Sut mae swyddogion yn bwriadu mynd ati i gasglu gwybodaeth berthnasol i lywio ein hamcanion ar gyfer 2024-2028?

3 - Beth fydd rôl y Pwyllgor hwn yn y broses o ddatblygu amcanion cydraddoldeb newydd?

4 - O ran ein trefniadau asesu effaith, y nod yw bod adnabod a lleihau effeithiau negyddol a hyrwyddo cydraddoldeb yn dod yn rhan o waith bob dydd y Cyngor. Sut all y Pwyllgor hwn gyfrannu at wireddu hynny?

5 - Oes unrhyw ddata ychwanegol fyddai'n ychwanegu gwerth i'r adroddiad blynyddol?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb. Prif bwrpas yr adroddiad yw dangos sut mae'r Cyngor yn cwrdd â'i ddyletswyddau cydraddoldeb. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn sy'n dilyn y cyfnod adrodd.

Mae gofynion penodol o ran beth y mae'n rhaid adrodd arno'n flynyddol. Yn unol ag un o'r gofynion hynny, mae'r wybodaeth am gyflogaeth yn yr adroddiad eleni'n seiliedig ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Er mwyn rhoi darlun mwy diweddar, mae gweddill yr adroddiad yn seiliedig ar y sefyllfa hyd at fis Rhagfyr 2022.

Mewn ymateb i sylwadau'r Pwyllgor hwn ar adroddiad blynyddol y llynedd, mae fformat yr adroddiad wedi'i haddasu i'w gwneud yn haws i'w dilyn. Eleni, felly, mae'r brif adroddiad yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa a datblygiadau dros y flwyddyn, gyda'r wybodaeth fanwl, sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ar gael yn yr atodiadau.

Mae'r adroddiad yn :

- rhoi rhai enghreifftiau o sut yr aethom ati i hyrwyddo cydraddoldeb o fewn ein cymunedau a'n gweithlu
- egluro sut yr aethom ati i gasglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol am ein cymunedau a'n gweithlu
- amlinellu ein trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau effaith
- rhoi amlinelliad o'r cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb
- adnabod ein blaenoriaethau ar gyfer y deuddeg mis nesaf

**Beth aeth yn dda**

Mae adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb yn helpu i lywio ein penderfyniadau. Un o lwyddiannau'r flwyddyn oedd y broses ymgysylltu ac ymgynghori gynhwysfawr a gynhaliwyd yn 2022 er mwyn llunio ein blaenoriaethau ar gyfer Cynllun newydd y Cyngor am y cyfnod 2023-2028.

Wrth i dymor ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol ddod i ben yn 2024, ein prif flaenoriaeth dros y deuddeg mis nesaf fydd datblygu cynllun ac amcanion cydraddoldeb newydd ar gyfer 2024-2028. Bydd y wybodath berthnasol a gasglwyd wrth ddatblygu Cynllun y Cyngor yn fan cychwyn cadarn i'r gwaith yma.

Yn ystod 2023, rydym hefyd yn bwriadu parhau i gryfhau ein trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu â chynrychiolwyr yr holl nodweddion gwarchodedig, wrth i ni fabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus newydd, fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth newydd.

O ran ein gweithlu, ar 11.66%, mae bwlch cyflog cyfartalog y Cyngor rhwng y rhywiau yn parhau i fod yn is na ffigwr cyfartalog y Deyrnas Unedig. Y bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau ar gyfer yr economi gyfan (ffigyrau dros dro yr ONS ar gyfer 2021) oedd 13.9%.

Hefyd, bu cynnydd yn nifer y staff a benodwyd yn y grwpiau oedran dan 25 a 55-64 ond gostyngiad yn yr ystod oedran 45-54. Mae'n gadarnhaol gweld ein bod yn gallu denu staff iau a phrofiadol. Fodd bynnag, mae'r data'n awgrymu y gallai fod angen canolbwyntio ar gadw yn yr ystodau oedran sy'n y canol.

| |
|---|
| **Beth sydd angen mwy o sylw**<br><br>Nid yw’r orfodol i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu data ynghylch anabledd, hil, crefydd neu gred, na chyfeiriadedd rhywiol.  Fodd bynnag, mae monitro gwybodaeth am gydraddoldeb yn galluogi cyflogwyr i adnabod, mynd i’r afael â gwahaniaethu yn erbyn staff a’i atal, trwy ddangos lle gallai fod anghydraddoldebau.<br><br>Er gwaethaf ein hymdrechion parhaus, mae’r data sydd gennym ar nodweddion gwarchodedig ein gweithlu wedi parhau i fod yn sefydlog.  Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o’r rhesymau dros gasglu’r data hwn a’r modd y caiff ei gadw a’i reoli’n gyfrinachol.  Dyma, felly, fydd yr ail flaenoriaeth dros y flwyddyn nesaf. |

| **6 – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Pwrpas yr adroddiad blynyddol yw edrych yn ôl ar sut mae’r Cyngor wedi bod yn cwrdd â’i ddyletswyddau o ran cydraddoldeb.  Mae hyn yn cynnwys amlinelliad o gynnydd yn erbyn y gwaith sy’n gysylltiedig â’n blaenoriaeth i sefydlu proses gorfforaethol effeithiol, er mwyn sicrhau bod effeithiau’n cael eu hasesu’n barhaus ar draws y gwasanaethau. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Gweler uchod. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg** |
| Gweler uchod. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2021/22 (drafft) |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. |

# Adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb 2021-2022

Sut yr aethom ati i gwrdd â'n dyletswyddau o ran cydraddoldeb

Mae'r adroddiad yma'n cynnwys:

- Gwybodaeth cyflogaeth am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022

- Gwybodath am ddatblygiadau eraill hyd at Rhagfyr 2022, er mwyn rhoi darlun mwy cyfredol

**Dyddiad cyhoeddi:** Mawrth 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg | This publication is available in English

**Trosolwg**
Mae'r adroddiad blynyddol yma'n dangos sut yr ydym yn cydymffurfio gyda'n dyletswyddau cyffredinol a phenodol o ran cydraddoldeb.

Mae'r data cyflogaeth yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Mae gweddill yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygiadau hyd at Rhagfyr 2022, er mwyn rhoi darlun mwy cyfredol.

Paratowyd yr adroddiad yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**Mwy o wybodaeth**
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan yn www.ynysmon.llyw.cymru. Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Ffreuer Owen
Rheolwr Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 25 20
E-bost: FfreuerOwen@ynysmon.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.
This publication is also available in English.

**Dogfennau cysylltiedig**
Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2020-2024. Ar gael ar ein gwefan.

# Cynnwys


Rhagair ........................................ 4
Cefndir ........................................ 5
Hyrwyddo cydraddoldeb ........................................ 6
Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol ........................................ 7
Asesu effaith ........................................ 9
Ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024 ........................................ 10
Edrych ymlaen ........................................ 12
Atodiad 1: Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio ........................................ 13
Atodiad 2: Adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau 2022 ........................................ 20
Atodiad 3: Amcanion cydraddoldeb 2020-2024 – cynnydd hyd at Rhagfyr 2022 ..... 22

# Rhagair

Rydym yn falch o gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol diweddaraf, sy'n dangos sut yr ydym wedi cwrdd â'n dyletswyddau yn ystod 2021/22.  Mae'r adroddiad yma'n cynnwys data cyflogaeth am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.  Mae gweddill yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygiadau hyd at Rhagfyr 2022, er mwyn rhoi darlun mwy cyfredol.

Yn ôl yn 2020, bu rhaid i ni  addasu ein ffyrdd o weithio yn gyflym i ymateb  i heriau pandemig COVID-19, pan oedd yr angen i ddiogelu ein gymunedau mwyaf bregus yn bwysicach nag erioed.  Ceir enghreifftiau o sut aeth y Cyngor ati i wneud hynny yn yr adroddiadau blynyddol a gyhoeddwyd ganddom ers hynny, ynghŷd ag adroddiadau, cynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill.

Wrth i ni barhau i fynd ati i ymateb i heriau tymor hir y pandemig, wrth roi Cynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2023-2028 ar waith – ac yn wir ym mhopeth a wnawn - byddwn yn parhau i ymrwymo, o fewn gallu a dylanwad y Cyngor, i ddiddymu camwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.



**Cynghorydd Llinos Medi**
Arweinydd a Deilydd Portffolio Cydraddoldeb



**Dylan J. Williams**
Prif Weithredwr

**Mawrth 2023**

# Cefndir

Pwrpas **Deddf Cydraddoldeb 2010** yw sicrhau tegwch i bawb.  Mae'n diogelu'r nodweddion canlynol (sy'n cael eu galw hefyd yn 'grŵpiau gwarchodedig'):

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil


Mae'r Ddeddf yn gosod **dyletswydd gyffredinol** ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol ymhob agwedd o'u gwaith:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **ddyletswyddau penodol** i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyfarfod â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys gofyniad i ddatblygu a chyhoeddi **amcanion cydraddoldeb** a **chynlluniau cydraddoldeb strategol** o leiaf unwaith bob pedair blynedd.

Hefyd, rhaid cynhyrchu **adroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb** (hy yr adroddiad hwn) erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.  Prif bwrpas yr adroddiadau blynyddol yw dangos sut yr ydym wedi cwrdd gyda'n dyletswyddau cyffredinol a phenodol o ran cydraddoldeb.

Cafodd yr adroddiad hwn ei gymeradwyo gan ein Tîm Arweinyddiaeth, sy'n cynnwys ein Prif Weithredwr, dirprwy a'n Cyfarwyddwyr. Craffwyd arno gan ein Pwyllgor Sgriwtini (Partneriaeth ac Adfywio) ac fe'i gymeradwywyd yn derfynol gan y deilydd portffolio perthnasol.



# Hyrwyddo cydraddoldeb

Dyma rai enghreifftiau o sut yr aethom ati i hyrwyddo cydraddoldeb yn ein cymunedau:

✓ Cefnogi cyn-filwyr sy'n profi caledi ariannol

✓ Cefnogaeth costau byw i drigolion Ynys Môn

✓ Tai cyngor newydd i drigolion lleol

✓ Sicrhau bod plant mewn gofal Ynys Môn yn mwynhau profiadau bywyd cadarnhaol

Mae mwy o enghreifftiau i'w gweld ar y dudalen Newyddion ar ein gwefan.

O ran ein gweithlu, mae uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys:

✓ Adolygu iaith rhyw-gynhwysol o fewn ein polisïau o ran y gweithle

✓ Parhau i fod yn Gyflogwr Hyderus Ymrwymedig o ran Anabledd

✓ Mae ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol

✓ Parhau i hyrwyddo polisïau gweithio'n hyblyg i gydbwyso anghenion busnes a chydbwysedd bywyd a gwaith

# Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol

## Ein cymunedau

Rydym yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb. Mae'n helpu i lywio ein penderfyniadau ac yn sail ar gyfer strategaethau a chynlluniau corfforaethol a gwasanaeth a'r adroddiadau pwyllgor a gyhoeddir ar ein gwefan.

Un o'n henghreifftiau diweddaraf yw ein hadroddiad ar broses ymgysylltu ac ymgynghori gynhwysfawr a gynhaliwyd yn 2022.  Y nod oedd deall barn trigolion Ynys Môn a'n helpu i lunio ein blaenoriaethau ar gyfer Cynllun newydd y Cyngor am y cyfnod 2023-2028. Mae'r canlyniadau, a gyflwynwyd i'n Pwyllgor Gwaith 24 Ionawr 2023, i'w gweld yma.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a gwella'n barhaus ein dulliau o gasglu gwybodaeth berthnasol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o faint, natur a chymhlethdod yr holl grwpiau gwarchodedig ar Ynys Môn. Rydym yn esbonio ein bwriadau'n fanylach yn Atodiad 3.

## Ein staff

Mae monitro gwybodaeth am gydraddoldeb galluogi cyflogwyr i ddeall cyfansoddiad eu gweithlu.  Mae'n ein helpu i adnabod, mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn staff a'i atal trwy ddangos lle gallai fod anghydraddoldebau.

Rydym yn ymdrechu'n gyson i gasglu gwybodaeth gywir am ein staff ac yna'n dadansoddi'r data hwn fesul y grwpiau gwarchodedig gofynnol trwy ein system Adnoddau Dynol electronig.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni gyhoeddi gwybodaeth benodol am gyflogaeth yn flynyddol.  Mae'r wybodaeth lawn am gyflogaeth a oedd ar gael i ni ar 31 Mawrth 2022 i'w gweld yn Atodiad 1. Rhoddir isod ddadansoddiad o'r data hwnnw:

### Recriwtio a Dethol

Bu cynnydd yn nifer y staff yn y grwpiau oedran dan 25 a 55-64 ond gostyngiad yn yr ystod oedran 45-54. Gall y cynnydd fod oherwydd y cynnydd mewn marchnata cyfryngau cymdeithasol ac ailddechrau'r gwaith gyrfaoedd gydag ysgolion a cholegau lleol yn dilyn y pandemig. Mae'n gadarnhaol gweld ein bod yn gallu denu staff iau a phrofiadol. Fodd bynnag, mae'r data'n awgrymu y gallai fod angen canolbwyntio ar gadw yn yr ystodau oedran sy'n y canol.

Mae gan bob gwasanaeth gynllun gweithlu i ddadansoddi gwybodaeth am y gweithlu ac i fynd i'r afael â materion megis cynllunio olyniaeth, i sicrhau trosglwyddo gwybodaeth a bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n addas ar gael pan fydd staff yn dymuno ymddeol.

## Monitro Cydraddoldeb

Mae'r proffil rhyw yn cadarnhau unwaith eto ein bod yn cyflogi llawer mwy o ferched na dynion, sy'n gyson â'r duedd ar draws llawer o awdurdodau lleol.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni gyhoeddi adroddiad yn flynyddol am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ein bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2022 oedd 11.66%, sy'n is na ffigwr cyfartalog y DU. Ceir rhagor o fanylion yn ein hadroddiad yn Atodiad 2.

Nid yw'n orfodol i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu data ynghylch anabledd, hil, crefydd neu gred, na chyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn parhau i annog staff i wneud hyn ac wedi creu sawl sianel i gefnogi staff i rannu'r wybodaeth yma. Mae hyn yn cynnwys tudalen benodol ar ein mewnrwyd – MonITor – i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan ein staff ynglŷn â pham rydym yn casglu'r wybodaeth.

Yn ystod y broses recriwtio, gellir trosglwyddo data o gais yr ymgeisydd llwyddiannus i'w ffeiliau cyflogaeth personol electronig pan fyddant yn cychwyn gweithio. Er mwyn annog ymgeiswyr i rannu gwybodaeth, mae opsiwn hefyd i ddewis '*gwell gennyf beidio â dweud*'. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth monitro cydraddoldeb y rhai sydd wedi ei rhannu'n cael ei hadlewyrchu yn y data gweithlu. Mae cyfle hefyd i ddiweddaru gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol ar unrhyw adeg, gan ddefnyddio ein system hunanwasanaeth, My View.

Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae'r data sydd gennym ar nodweddion gwarchodedig yn ymddangos yn sefydlog. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith i hyrwyddo'r system hunanwasanaeth i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r rhesymau dros gasglu'r data hwn a'r modd y caiff ei gadw a'i reoli'n gyfrinachol.

## Hyfforddiant

Yn unol â'n Strategaeth Pobl, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu gweithwyr ac aelodau etholedig. Gall cyfleoedd hyfforddi a datblygu gynnwys cymwysterau ac achrediadau, dysgu yn yr ystafell ddosbarth, e-ddysgu, dysgu cyfunol, dysgu hunangyfeiriedig, cysgodi a dysgu yn y gwaith.

Er mwyn darparu gwasanaethau'n effeithiol, mae angen i'r holl staff ac aelodau etholedig fod yn ymwybodol o'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol i sicrhau eu bod yn cael ystyriaeth ddyledus yn y gwaith y maent yn ei wneud.

Mae hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r rhaglen hyfforddi a datblygu. Fel etifeddiaeth o'r pandemig, mae llawer o sesiynau hyfforddi yn parhau i gael eu darparu ar-lein. Trefnir hyfforddiant dan arweiniad tiwtor ac e-ddysgu i sicrhau y rhennir gwybodaeth gyda staff perthnasol ac Aelodau Etholedig. Mae marchnata a hyrwyddo hyfforddiant a dysgu am gydraddoldeb yn parhau.

Rydym wedi cyflwyno sesiwn newydd ar ragfarn diarwybod, i helpu staff i ddeall ac adnabod dulliau ar gyfer rheoli tueddiadau personol, tîm a sefydliadol yn gadarnhaol er mwyn gwella prosesau gwneud penderfyniadau yn y gweithle a'u gwneud yn fwy effeithiol.

Roedd y sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd eleni yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Hyfforddiant ar-lein** | •Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb<br>•Rhagfarn diarwybod<br>•Cydraddoldeb am amrywiaeth<br>• Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad |
| Modiwlau e-ddysgu | • Cydraddodleb yn y gweithle |
| Anwytho corfforaethol i weithwyr newydd | • Cydraddoldeb ac amrywiaeth |

Ar y cyfan, credwn ein bod yn parhau i gymryd camau cadarnhaol tuag at hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad, a byddwn yn parhau i ddatblygu ac esblygu dulliau presennol i sicrhau bod cynnydd yn parhau.

# Asesu effaith

Rydym yn cydnabod y gofyniad statudol i gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ac mae hyfforddiant ar gael i unrhyw aelod o staff sy'n teimlo bod angen arweiniad pellach arnynt.  Mae templedi a chanllawiau ar gael ar ein mewnrwyd ac mae'r Tîm Polisi a'r Gymraeg hefyd wrth law i gynnig cyngor.

Mae angen inni sicrhau bod cynghorwyr a swyddogion sydd â chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau yn deall yr effaith debygol cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.  Am y rheswm hwn, mae'r adroddiadau eglurhaol ar gyfer ein prif bwyllgorau – y pwyllgorau sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith – yn gofyn a fyddai'r penderfyniad yn cael unrhyw effaith bosibl ar rai grwpiau o fewn ein cymunedau.

Y nod yw bod nodi a lleihau effeithiau negyddol a hyrwyddo cydraddoldeb yn dod yn rhan o'n gwaith bob dydd. Mae hyn yn cynnwys llunio polisïau, arferion cyflogaeth, darparu gwasanaethau a swyddogaethau eraill yr ydym yn eu cyflawni. Mae'n ymddangos bod cynnydd yn symud yn gadarnhaol gyda mwy o feysydd yn cydnabod yr angen i asesu effaith ac mae'r canllawiau a'r templedi sydd ar gael yn cael eu defnyddio.

# Ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024

## Sut y gwnaethom hyd yn hyn

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (y Cynllun) ar gyfer 2020-2024 yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb presennol, sut y gwnaethom eu dewis ac yn nodi rhai camau gweithredu i'n helpu i'w cyflawni.

Mae Atodiad 3 yn rhoi diweddariadau ar y cynnydd a wnaed hyd at fis Rhagfyr 2022. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys rhai dangosyddion o'r hyn y dylem ddisgwyl ei weld pan fydd y camau gweithredu hyn wedi'u cwblhau.

Ar ôl defnyddio’r wybodaeth yn Atodiad 3 i asesu ein cynnydd hyd yma yn erbyn y dangosyddion hyn, credwn ein bod ar y trywydd iawn ar y cyfan ac ni ragwelir unrhyw risgiau sylweddol ar hyn o bryd:

| | |
|---|---|
| 1 | Gweithred wedi’i gwblhau. |
| 18 | Mae’r weithred yn broses barhaus a/neu ar amser. |
| 1 | Rhai materion / risgiau wedi’u hadnabod. |
| 0 | Materion / risgiau sylweddol wedi’u hadnabod. |
| 20 | Cyfanswm nifer y dangosyddion |

| 1: Mae canlyniadau o ran cyrhaeddiad addysgol a llesiant mewn ysgolion yn gwella | |
|---|---|
| Camau wedi’u cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng gwahanol grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys bylchau sy'n codi oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| Mae’r Cyngor wedi cael sicrwydd bod ysgolion yn gallu dangos eu bod yn cymryd camau i herio bwlio a throseddau casineb, mynd i’r afael ag ymddygiad annerbyniol a gwella llesiant. | |

| 2: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr teg ac yn lleihau bylchau mewn cyflog | |
|---|---|
| Mae patrymau gwaith gweithwyr, ble bynnag y mae hynny’n bosibl, yn cael eu haddasu i’w cynorthwyo i gyfuno gwaith a blaenoriaethau eraill tra’n rhoi i’r Cyngor yr hyblygrwydd i ddarparu gwasanaeth sy’n fwy integredig ac ymatebol. | |
| Mae’r Cyngor fel mater o drefn yn casglu ac yn defnyddio data monitro gweithwyr o ran yr holl grwpiau gwarchodedig er mwyn nodi a lleihau bylchau rhwng cyflogau ac unrhyw anghydraddoldebau eraill. | |

| 3: Byddwn yn cymryd camau i wella safonau byw pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig | |
|---|---|
| Mae nifer yr arosfannau bysus hygyrch, cyrbinau isel addas a chyfleusterau croesi cyffyrddol ar yr ynys yn cynyddu. | |
| Mae cwynion a dderbynnir ynghylch cerbydau sydd wedi'u parcio ar balmentydd neu ger mannau croesi yn cael sylw ac yn cael eu datrys, lle bynnag y mae hynny'n bosibl. | |
| Mwy o gartrefi o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ein trigolion. | |

| 4: Byddwn yn gwella canlyniadau o ran iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol | |
|---|---|
| Mwy o gyfleoedd ar gael a phobl o bob sector o'r gymuned, yn enwedig y rheiny grwpiau hynny nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n llawn, yn dewis ffyrdd iach o fyw drwy fod yn fwy actif. | |
| Cynnydd yn nifer y bobl â namau dysgu sy'n manteisio ar y cynnig i gael gwiriad iechyd blynyddol. | |
| Bod yr holl unigolion sy'n cysylltu â'r Cyngor yn cael cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. | |

| 5: Byddwn yn gwella diogelwch personol a mynediad ar gyfiawnder | |
|---|---|
| Mwy o bobl yn ymwybodol o'r ffaith bod cymorth ar gael i ddioddefwyr ynghyd â sut i riportio troseddau casineb. | |
| Holl staff ac Aelodau yn glir am y disgwyliadau a osodir arnynt o ran ymateb mewn modd priodol i bryderon sy'n cael eu riportio; gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cofnodi ac ymateb i achosion ac unrhyw honiadau neu amheuon o niwed neu gam-drin. | |
| Mwy o bobl yn ymwybodol o'r mathau mwyaf cyffredin o dwyll a sut i ddelio â nhw. | |

| 6: Byddwn yn cynyddu mynediad at gyfranogiad er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau | | |
|---|---|---|
| Cynnydd mewn amrywiaeth ymysg unigolion sy'n sefyll yn etholiadau llywodraeth leol 2022 ac unigolion sy'n ymgeisio i fod yn aelodau cyfetholedig fel rhan o brosesau recriwtio yn y dyfodol. | | |
| Ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei gyflawni i safon uchel yn gyson ar draws y Cyngor. | | |
| Cynnydd yn nifer y sylwadau a dderbyniwyd gan grwpiau anodd eu cyrraedd mewn ymateb i ymgysylltu ac ymgynghori. | | |

| 7: Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol | |
|---|---|
| Mae anghydraddoldebau cysylltiedig ag anfanteision cymdeithasol economaidd yn cael eu nodi ac yn cael ystyriaeth ddigonol yng nghynlluniau, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor. | |

| 8: Byddwn yn gwella gweithdrefnau'r Cyngor er mwyn sicrhau tegwch i bawb | |
|---|---|
| Lefel uchel o ymwybyddiaeth a gwell dealltwriaeth o ddyletswyddau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y Cyngor. | |
| Asesiadau effaith yn cael eu cynnal i safon uchel yn rheolaidd a byddant wedi dod yn rhan annatod o fusnes o ddydd i ddydd. | |

# Edrych ymlaen

## Beth rydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Wrth i dymor ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol ddod i ben yn 2024, ein prif flaenoriaeth dros y deuddeg mis nesaf fydd datblygu Cynllun ac amcanion cydraddoldeb newydd ar gyfer 2024-2028. Wrth wneud hynny, byddwn yn rhoi sylw dyledus i wybodaeth berthnasol o ystod o wahanol ffynonellau, gan gynnwys:

• Cynllun y Cyngor 2023-2028

• Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-2028.

Mae ein dadansoddiad o'r data am ein gweithlu yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith i annog mwy o staff i gwblhau ein holiadur cydraddoldeb.

Ein blaenoriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer y deuddeg mis nesaf:



Datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2024-2028




Dod o hyd i ffyrdd newydd i gael mwy o staff i rannu gwybodaeth am gydraddoldeb

# Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio

Mae'r data cyflogaeth sydd gennym ar hyn o bryd yn ymwneud â thua 3,038 o weithwyr y Cyngor (gan gynnwys staff sy'n dysgu).


Sylwer: Nid yw'n orfodol i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu data ynghylch anabledd, hil, crefydd neu gred, na chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r categori 'anhysbys' yn y graffiau canlynol yn nodi nifer yr unigolion sydd wedi dewis peidio â darparu unrhyw ddata ynghylch y nodwedd warchodedig benodol honno.


## Pobl a gyflogwyd gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2022


| **Cyfanswm: 3038** | | | Dynion: 759 | | | Merched: 2279 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed <25 | Oed 26-34 | Oed 35-44 | Oed 45-54 | Oed 55-64 | Oed 65+ | *Anabl | *DLlE** | *LHD*** |
| 277 | 554 | 683 | 719 | 625 | 180 | 72 | 9 | 27 |


* Nid oes rhaid i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth yma.  O'r rhai hynny sydd wedi datgan, dyma'r dadansoddiad.


**DLlE – Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
***LHD – Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol





Rhyw y staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2022
2500
2000
1500
1000
500
0
31/03/2021
31/03/2022
B
G


Crefydd y staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2022
2000
1800
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
2 2
750 759
1 1
4 3
429 454
21 21
80 83
1744 1715
BWDHYDD
CRISTION
HINDW
IDDEW
DIM CREFYDD NA CHRED
ARALL
GWELL GENNYF BEIDIO A DWEUD
ANHYSBYS
31/03/2021
31/03/2022


Staff â Baner Anabledd ar 31 Mawrth 2022
72
80
2021
2022


Tarddiad ethnig staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2022
1800
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
1712
1687
2
2
5
6
3
2
1299
1331
1
1
ANHYSBYS
TSIEINIAIDD
CYMYSG
ARALL
GWYN
DU
31/03/2021
31/03/2022




## Pobl sydd wedi llwyddo i newid swydd yn 2021/22

Bydd y ffigyrau yn y tabl canlynol yn cynnwys y rhai sydd wedi cael dyrchafiad, wedi newid rol ar yr un lefel neu wedi cymryd ail swydd gyda'r Awdurdod .

| **Cyfanswm: 739** | | | Dynion: 189 | | | Merched: 550 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed <25 | Oed 26-34 | Oed 35-44 | Oed 45-54 | Oed 55-64 | Oed 65+ | *Anabl | *DLIE** | *LHD*** |
| 167 | 163 | 168 | 126 | 93 | 22 | 9 | 3 | 6 |

* Nid oes rhaid i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth yma. O'r rhai hynny sydd wedi datgan, dyma'r dadansoddiad.

**DLIE – Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
***LHD – Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol

## Hyfforddiant

| **Nifer y sesiynau hyfforddi a gwblhawyd yn 2021/22: 3190** | |
|---|---|
| Dynion: 820 (26%) | Merched: 2370 (74%) |

## Cwynion

Mae hon yn weithdrefn ffurfiol ar gyfer codi materion o bryder na ellir eu datrys yn anffurfiol. Mae ein cofnodion yn dangos nad oedd unrhyw gyflogeion yn rhan o weithdrefnau cwyno ffurfiol - naill ai fel achwynydd nag ychwaith fel person y gwnaed cwyn yn eu herbyn - rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.


## Disgyblu


Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â gweithwyr sydd wedi ymwneud â'r drefn ddisgyblu, a hynny rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 ac fe'i chyflwynir ar gyfer pob un o'r nodweddion a warchodir:


| **Nifer y gweithwyr a oedd yn ddarostyngedig i'r drefn ddisgyblu - 10** | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | Anabledd | Newid Rhyw | Beichiogrwydd a Mamolaeth |
| 16-24 – 2<br>25-34 – 1<br>35-44 – 0<br>45-54 – 2<br>55-64 – 4<br>65+ – 1 | Cofnodwyd gwybodaeth am 2 allan o 10:<br><br>Fflag anabledd – 0<br>Dim anabledd – 2 | Dim wedi'u cofnodi. | Dim wedi'u cofnodi. |
| Hil | Crefydd neu Gred | Rhyw | Cyfeiriadedd Rhywiol |
| Cofnodwyd gwybodaeth am 4 allan o 10:<br><br>Gwyn – 4 | Cofnodwyd gwybodaeth am 4 allan o 10:<br><br>Cristion – 4 | Dynion – 6<br>Merched – 4 | Cofnodwyd gwybodaeth am 4 allan o 10:<br><br>Heterorywiol – 4 |

## Pobl sydd wedi gwneud ceisiadau am swyddi yn ystod 2021/22

| Cyfanswm: **1579** | | | Dynion: 656 | | | Merched: 923 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oed<br><25 | Oed<br>26-34 | Oed<br>35-44 | Oed<br>45-54 | Oed<br>55-64 | Oed<br>65+ | *Anabl | *DLIE** | *LHD*** |
| 243 | 221 | 189 | 109 | 91 | 6 | 38 | 37 | 36 |
| * Nid oes rhaid i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth yma. O'r rhai hynny sydd wedi datgan, dyma'r dadansoddiad.<br><br>**DLIE – Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig<br>***LHD – Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | | | | | | | | |


Proffil Oedran Ymgeiswyr
300
250
200
150
100
50
0
243
221
189
146
161
126
109
81
91
59
7
6
Oed <25
Oed 26-34
Oed 35-44
Oed 45-54
Oed 55-64
Oed 65+
2020/21
2021/22


Rhyw Ymgeiswyr
1000
900
800
700
600
500
400
300
200
100
0
884
476
923
656
2020/21
2021/22
B
G


Ymgeiswyr â Baner Anabledd
28
38
2020/21
2021/22

# Adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau 2022

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Dyma ein hadroddiad sy'n rhoi cipolwg o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2022. Mae'n cynnwys holl weithwyr y Cyngor, ac eithrio'r rhai a gyflogir mewn ysgolion. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Y bwlch cyflog cyfartalog rhwng y ddau ryw ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn: | **11.66%** |
| Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y ddau ryw ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn: | **14.65%** |

Gan nad yw'r Cyngor yn talu bonws i'w weithwyr, nid yw unrhyw ddangosyddion bwlch bonws rhyw yn berthnasol.

## Beth yw achosion sylfaenol bwlch cyflog y Cyngor rhwng y rhywiau?

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o gyflog cyfartal ar gyfer gwaith cyfartal o werth cyfartal ac yn cydnabod y dylai strwythur tâl a graddfeydd fod yn rhydd o ragfarn ac yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol. Mae gennym bolisi clir o dalu gweithwyr yn gyfartal am yr un gwaith neu waith cyfatebol, gwaeth beth fo'u rhyw. Mae pob rôl swydd yn cael ei gwerthuso yn ôl yr angen i sicrhau strwythur teg. Rydym yn hyderus nad yw ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu dynion a merched yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfatebol.

Mae bwlch cyflog y Cyngor ar sail rhyw yn ganlyniad i rôlau'r swyddi y mae dynion a merched yn gweithio o fewn y sefydliad a'r cyflogau y mae'r swyddi hyn yn eu denu. Ar draws economi'r DU gyfan, mae dynion yn fwy tebygol na merched o fod mewn swyddi uwch, tra bo merched yn fwy tebygol na dynion o fod mewn swyddi rheng flaen ar ben isaf y sefydliad, megis gofalu a glanhau, rolau sydd ddim yn sgorio'n uchel o fewn cynlluniadu arfarnu swyddi ac felly mae'r graddfeydd tâl yn is. Mae canran uwch o weithwyr rhan-amser yn ferched ac mae merched yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu di-dâl na dynion.

Adlewyrchir y patrwm cenedlaethol hwn yng nghyfansoddiad ein gweithlu, lle mae mwyafrif ei weithwyr yn ferched, ac mae cyfran helaeth o'r rhain yn gweithio oriau rhan amser mewn swyddi sy'n cael lefel is o dâl, megis gofal cymdeithasol rheng flaen, glanhau, ac ati.

## Sut mae bwlch cyflog y Cyngor rhwng y rhywiau yn cymharu â sefydliadau eraill?

Mae gan y mwyafrif helaeth o sefydliadau ac awdurdodau lleol fwlch cyflog rhwng y rhywiau. Y bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau ar gyfer yr economi gyfan (ffigurau dros dro yr ONS ar gyfer 2021) oedd 13.9%. Ar 11.66%, mae bwlch cyflog cyfartalog y Cyngor rhwng y rhywiau yn is na ffigwr cyfartalog y Deyrnas Unedig.

## Beth ydyn ni'n ei wneud i fynd i'r afael ar bwlch cyflog rhwng y rhywiau?

Er bod y bwlch cyflog rhwng y ddau ryw yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau'r bwlch hwn. Rydym yn cydnabod bod sgôp y Cyngor i weithredu'n gyfyngedig gan fod ei gyfraddau cyflog yn cael eu cytuno'n genedlaethol ac felly nid oes ganddo reolaeth uniongyrchol dros gyflogau. Nid yw'r Cyngor yn gweithredu unrhyw gynlluniau tâl na bonws ar sail perfformiad. Rydym yn cydnabod bod rhaid i dâl a gradd pob swydd fod yn deg, dryloyw ac anwahaniaethol. Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun Arfarnu Swyddi sy'n glynu at egwyddorion cydraddoldeb a chynnal uniondeb a thegwch yn ein strwythur graddfeydd yn barhaus.

Rydym yn darparu ystod eang o gyfleoedd i weithio'n hyblyg i gefnogi, datblygu a chadw staff. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r mentrau hyn er mwyn denu a chadw staff. Rydym wedi cymryd camau i hyrwyddo amrywiaeth rhyw ym mhob maes o'n gweithlu ac yn parhau i fonitro rhywedd i nodi unrhyw rwystrau i gydraddoldeb rhywiol, er enghraifft:

- nifer yr ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd am rolau penodol;
- nifer y dynion a merched ym mhob rôl a gradd cyflog;
- y nifer sy'n manteisio ar drefniadau gweithio hyblyg yn ôl rhyw a lefel o fewn y sefydliad;
- cyfrannau'r dynion a merched sy'n gadael y sefydliad a'u rhesymau dros adael – adolygu gwybodaeth am gyfweliadau gadael er mwyn deall yn well y rhesymau dros adael;
- adolygu ei strategaethau recriwtio a chadw a sefydlu gwahanol ddulliau i ddenu talent;
- monitro gwybodaeth Cyflog Cyfartal;
- monitro ymlyniad at brosesau Arfarnu Swyddi;
- adolygu telerau ac amodau yn rheolaidd gyda'r Undebau Llafur cydnabyddedig.

Arweiniodd pandemig Covid-19 at ffyrdd newydd o weithio. Mae ein polisi Gweithio Hybrid, sy'n parhau i fod yn destun peilot, yn hyrwyddo ffyrdd hyblyg o weithio ac wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi cydbwysedd bywyd a gwaith staff tra'n parhau i ddarparu'r un safon o wasanaeth i gleientiaid a chwsmeriaid. Rydym yn y broses o gaffael system recriwtio newydd a gwell. Gobeithir y bydd hyn yn gymorth i ddenu grwpiau i'r gweithlu ar bob lefel. Byddwn yn parhau i wella marchnata a hyrwyddo cyfleoedd a'r defnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Ni fydd yr un o'r mentrau hyn, ar eu pen eu hunain, yn dileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac efallai y bydd sawl blwyddyn cyn inni weld effaith sylweddol. Rydym wedi ymrwymo i barhau i adrodd yn flynyddol ar yr hyn yr ydym yn ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac unrhyw gynnydd pellach a wnawn.

# Amcanion cydraddoldeb 2020-2024 – cynnydd hyd at Rhagfyr 2022

## Amcan 1: Mae canlyniadau o ran cyrhaeddiad addysgol a llesiant mewn ysgolion yn gwella

Mae'r cytundeb o ran peidio cyhoeddi data perfformiad cyrhaeddiad ers 2020 yn parhau.  Mae ysgolion yn parhau i fonitro data yn fewnol ac yn defnyddio'r data yma i adrodd ar gynnydd disgyblion yn ystod y flwyddyn.  Mae'r data yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i gynllunio ymyrraeth benodol, ar gyfer lleihau unrhyw fwlch mewn cyrhaeddiad, ac mae rôl allweddol y Llywodraethwyr yn parhau i fod yn bwysig o ran herio hyn.  Mae ymweliadau a chyfarfodydd gydag ymgynghorwyr cefnogi gwelliant ysgolion wedi parhau, gan gefnogi ysgolion i graffu ar y data a chefnogi unrhyw weithredu pellach.

### Blaenoriaeth 1.1: Byddwn yn lleihau'r bwlch sydd rhwng y gwahanol grwpiau o ran cyrhaeddiad addysgol

#### Cynnal perfformiad disgyblion sydd â gofynion dysgu ychwanegol ar lefel TGAU fel nad oes unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol

| Anghenion Dysgu Ychwanegol – Categoriau Cefnogi | A* | A | B | C | D | E | F | G | U | **Cyfanswm Popeth** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu Ysgol | 17 | 51 | 68 | 113 | 103 | 92 | 87 | 45 | 34 | **610** |
| Gweithredu Ysgol a Mwy | 11 | 9 | 13 | 33 | 36 | 40 | 32 | 16 | 32 | **222** |
| Datganiad | 1 | 8 | 5 | 9 | 6 | 20 | 17 | 15 | 10 | **91** |
| Cyfanswm | 29 | 68 | 86 | 155 | 145 | 152 | 136 | 76 | 76 | **923** |

Dengys y canlyniadau ar gyfer 2022 nad oes fawr o wahaniaeth rhwng y canran disgyblion gweithredu ysgol, gweithredu ysgol a mwy a disgyblion ar ddatganiad sydd yn llwyddo i gael A* neu A.  Mae'r canrannau yma yn 11% ar gyfer disgyblion gweithredu ysgol, 9% gweithredu ysgol a mwy a 10% ar gyfer disgyblon sydd ar ddatganiad.  Gwelir mwy o wahaniaeth rhwng disgyblion sydd yn llwyddo i gael graddau rhwng A* a C.  Roedd 40% o ddisgyblion gweithredu ysgol wedi llwyddo i gael graddau rhwng A* a C, 30% o ddisgyblion gweithredu ysgol a mwy a 25% o ddisgyblion sydd ar ddatganiad.

Mae'r gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynhwysiad yn parhau i hybu cynhwysiad a chydraddoleb llawn ar gyfer dysgwyr bregus.  Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant penodol a chydweithio ar ddefnydd grant cyfalaf ADY er mwyn hybu amgylchedd ddysgu cynhwysol.  Mae gwefan pwrpasol gan Môn a Gwynedd, sydd ar gael i ysgolion, disgyblion a'u rhieni i'w cefnogi - rydym yn parhau i uwchlwytho adnoddau newydd ar y wefan yn rheolaidd.

Yn 2021, cafodd grant hwb ei ddefnyddio i ariannu 2,700 o Chromebooks. Yn 2022, rydym wedi adeiladu ar hyn drwy sicrhau fod pob sefydliad addysg yn derbyn sgriniau ar gyfer cysoni'r ddarpariaeth digidol ar draws yr ynys. Roedd hyn yn cynnwys 192 sgrin y flwyddyn yma, gyda proses yn parhau y flwyddyn nesaf er mwyn gorffen erbyn Gorffennaf 2024.

Yn ogystal, cafodd grantiau eraill eu dyrannu er mwyn ceisio sicrhau bod ysgolion yn gallu lleihau bylchau dysgu ac addysgu, gan gynnwys Grant Cerdd Cenedlaethol. Mae'r grant yma yn datblygu profiadau cerdd ar draws pob dalgylch i sicrhau fod pob plentyn cynradd yn derbyn profiadau cyntaf ar amrywiaeth o offerynau. Yn yr uwchradd, mae Llwybrau Cerddoriaeth yn yr un modd yn darparu profiadau i pob plentyn dros y tair mlynedd nesaf.

Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol rhwng bechgyn a merched sy'n cyflawni Sgôr 9 wedi'i gapio ar adeg gadael ysgol, lle mae'n fwy na 10% a pharhau i fynd i'r afael â'r mater hwn ar draws pob ysgol

Gan gofio nad oedd "arholiadau" allanol unwaith eto, rhoddwyd sylw gofalus i weithdrefnau a phrosesau asesiadau sefydliadau (ysgolion yn cefnogi ei gilydd a chefnogaeth ar gael drwy CBAC). Cyflwynwyd amrywiaeth o ddulliau asesu graddau, gan gynnwys profion, ynghyd ag asesiadau parhaus, er mwyn sicrhau cymorth fod pawb yn derbyn yr un tegwch.

Gweithredu cynlluniau i leihau'r gwahaniaeth ym mherfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol (PYD) am ddim a'r rhai nad ydynt, trwy ddefnyddio cyllid Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol ar lefel ysgol unigol

| | A* | A | B | C | D | E | F | G | U | Cyfanswm Popeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Plentyn PyD** | 19 | 49 | 92 | 170 | 99 | 77 | 86 | 57 | 54 | 703 |
| **Dim PyD** | 606 | 839 | 1288 | 1135 | 542 | 338 | 199 | 130 | 136 | 5213 |
| **Cyfanswm** | 625 | 888 | 1380 | 1305 | 641 | 415 | 285 | 187 | 190 | 5916 |

Mae'r canlyniadau ar gyfer 2022 yn dangos bod 28% o ddisgyblion sydd ddim yn derbyn prydau am ddim wedi cael A* neu A i gymaharu efo dim ond 10% o blant sydd gyda hawl i brydau am ddim. Mae 74% o ddisgyblion sydd ddim yn derbyn prydau am ddim wedi llwyddo i gael graddau rhwng A* a C i gymharu a 47% o blant sydd efo hawl i brydau am ddim. Mae'r canlyniadau yma yn dangos bod gwahaniaeth yn parhau ym mherfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a rhai nad ydynt ond mae cynlluniau yn bodoli er mwyn ceisio lleihau'r bwlch.

Mae ysgolion yn cynllunio'n ofalus i ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i sicrhau nad yw disgyblion sydd gyda'r hawl i ginio am ddim yn cael eu heffeithio'n andwyol oherwydd tlodi. Mae pob ysgol yn gweithredu cynllun gwariant sy'n dangos y gynhaliaeth ychwanegol rhoddir i'r cohort yma o ddisgyblion i leihau effaith tlodi ar gyflawniad.

| Blwyddyn | Niferoedd yn derbyn cinio am ddim | % o blant ysgolion Môn yn derbyn cinio am ddim | % o blant Cymru yn derbyn cinio am ddim |
|---|---|---|---|
| 2019/20 | 1547 | 17% | 17% |
| 2020/21 | 1879 | 20% | 19% |
| 2021/22 | 2065 | 22% | 23% |

Mae’r ffigyrau uchod yn dangos bod niferoedd plant sy’n hawlio brydau ysgol am ddim yn cynyddu’n flynyddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad i gynnig cinio am ddim i holl blant cynradd ac mae hyn yn cael ei weithredu mewn camau ar draws pob awdurdod. Mae blynyddoedd derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2 yn Môn yn derbyn cinio am ddim ar hyn o bryd a’r gobaith ydi bydd pob plentyn cynradd yn derbyn cinio am ddim erbyn Medi 2023. Bydd hyn yn ei gwneud yn anoddach i adnabod y plant sydd yn deilwng am ginio am ddim o dan yr hen drefn.

Gyda mwy o ddisgyblion PYD wedi’u cofrestru, mae cydweithio traws adrannol wedi bod yn effeithiol i sicrhau bod y grŵp yma o blant yn parhau i gael darpariaeth dros y gwyliau ysgol. O ganlyniad, mae pob teulu cymwys PYD yn derbyn taliadau yn uniongyrchol i gyfrif banc. Mae’r taliadau yma wedi parhau ond mae’n debygol o ddod i ben ar ôl gwyliau hanner tymor Chwefror 2023.

## Blaenoriaeth 1.2: Byddwn yn lleihau bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth mewn addysg

### Cynorthwyo ysgolion i weithredu argymhellion canllawiau Llywodraeth Cymru, *Hawliau, Parch, Cydraddoldeb*

Yn ystod 2022, Ynys Môn oedd yr Awdurdod cyntaf i hwyluso hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru ar Aflonyddu Rhywiol ar Lein. Bu’r Gwasanaeth Dysgu yn weithredol iawn yn hyrwyddo gweithdai i gefnogi Maes Dysgu Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae gweithdrefnau fel hyn yn datblygu gwytnwch ysgolion i fynd i’r afael â heriau atal bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth mewn addysg.

Mae gan y Cyngor brosesau cadarn i gefnogi ysgolion i ddarparu ymyraethau amrywiol i atal achosion o fwlio yn yr ysgol. Hefyd, mae’r prosesau’n sicrhau bod hawliau plant a phrosesau sy’n rhoi sylw ar gydraddoldeb yn cael lle amlwg mewn cynlluniau gweithredu.

Drwy gydweithio gydag Ysgolion Iach mae’r gwasanaeth Dysgu yn rhannu adnoddau cyfoes yn gyson drwy gylchlythyron ac, o ganlyniad, mae ysgolion yn hyderus iawn yn eu gweithdrefnau i atal bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth.

Bellach mae’r Awdurdod wedi buddsodd mewn rhaglen electroneg a fydd yn weithredol o Wanwyn 2023. Mae Adroddiadau Diogelu Blynyddol yn cael eu monitro yn flynyddol ac mae achosion o fwlio sydd yn cael ei gofnodi yn parhau yn gyson isel.

### Cylchredeg gwybodaeth i ysgolion yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol (Hydref)

Yn 2022 cyflwynwyd  Maes Llafur Cytunedig Ynys Môn newydd i ysgolion sy'n cyd-fynd gyda gofynion Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Maes Llafur yn cynnig arweiniad cadarn i ysgolion ar themâu o fewn y dyniaethau ac o fewn y maes iechyd a lles sy'n codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb.

Mae cylchredeg gwybodaeth i ysgolion yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan yn parhau yn gyfle gwych i ddod â'r testun pwysig hyn i sylw ysgolion.  Mae rhannu adnoddau fel Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth, Schoolbeat.cymru ac adnoddau gan NSPCC yn galluogi ysgolion i roi sylw blaenllaw i'r maes.

Fodd bynnag, rydym yn tynnu sylw ysgolion at y ffaith nad yw'r wythnos codi ymwybyddiaeth yn ddigwyddiad sydd wedyn yn cael ei anghofio am weddill y flwyddyn. Rydym yn annog ysgolion i sicrhau bod y themâu pwysig yma yn derbyn ystyriaeth barhaus o fewn ein hysgolion.  Fe hysbysir ac annogir ysgolion i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau perthnasol ar HWB.

## Amcan 2: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr teg ac yn lleihau bylchau mewn cyflogau

### Blaenoriaeth 2.1: Byddwn yn nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran prosesau recriwtio, cadw staff, hyfforddiant a dyrchafiadau

#### Ymdrechu'n barhaus i ddatblygu strategaethau pellach i gynorthwyo staff i weithio'n hyblyg a pholisïau eraill sy'n gyfeillgar i deuluoedd:

Mae'r Polisi Gweithio Hybrid peilot wedi'i weithredu ac mae'n caniatáu hyblygrwydd i staff weithio adref neu o'r swyddfa, yn unol ag anghenion busnes. Canfu arolwg staff fod yr hyblygrwydd hwn wedi cefnogi cydbwysedd bywyd a gwaith rhai staff er bod yn well gan staff eraill strwythur amgylchedd swyddfa. Bydd y polisi hwn a'i effeithiau yn cael eu hadolygu dros y 12 mis nesaf.

### Blaenoriaeth 2.2: Byddwn yn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog rhwng pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig

#### Parhau i annog mwy o staff i ddarparu gwybodaeth bersonol fel y gall yr Awdurdod gael darlun mwy cyflawn o'r nifer o weithwyr y Cyngor fesul nodwedd a ddiogelir:

Mae'r Awdurdod yn parhau i annog staff i ddarparu gwybodaeth bersonol ac mae wedi creu sawl sianel i gefnogi staff i rannu'r wybodaeth hon. Ceir rhagor o fanylion yma.

#### Dadansoddi'r data gweithlu blwyddyn ar ôl blwyddyn a darparu adroddiadau blynyddol yn cynnwys y wybodaeth a ddadansoddwyd:

Mae'r data gweithlu blynyddol wedi'i goladu a'i ddadansoddi, gan adrodd ar ddata ar 31 Mawrth, 2022. Rhoddir dadansoddiad yn y prif adroddiad a cheir rhagor o wybodaeth yn:

Atodiad 1 – Gwybodaeth am gyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio

Atodiad 2 – Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2022

# Amcan 3: Byddwn yn cymryd camau i wella safonau byw pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig

## Blaenoriaeth 3.1: Byddwn yn gwella mynediad ffisegol at wasanaethau, trafnidiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored

### Parhau, lle mae hynny'n bosibl, i wella arosfannau bysus ar yr ynys i'w gwneud yn hygyrch

Derbyniwyd bron i £500k o grant y Gronfa Seilwaith Bysiau yn 2022/23. Bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith parhaus i wella cyfleusterau arosfannau bysiau, gan gynnwys moderneiddio arosfannau, seddi, goleuadau, gwybodaeth electronig a storio beiciau ar draws yr ynys.

### Parhau i ddarparu cyrbinau isel a chyfleusterau croesi cyffyrddol addas fel rhan o gynlluniau gwella troedffyrdd

Gwnaed gwelliannau i nifer o fannau croesi i gerddwyr ers yr adolygiad diwethaf, a ariannwyd gan y grant diogelwch ffyrdd cyfalaf a chronfa adfer COVID. Mae tair cyrbin isel / croesfannau cyffyrddol newydd wedi'u darparu ar draws yr ynys.

### Ymateb fel y bo'n briodol i gwynion a dderbynnir gan aelodau o'r cyhoedd trwy ddefnyddio ein pwerau o dan ddeddfwriaeth rheoli traffig i gadw palmentydd a chroesfannau yn glir rhag rhwystrau a achosir gan geir wedi'u parcio

Mae patrolau wedi'u cynnal a chamau gorfodi parcio wedi'u cymryd mewn ymateb i alwadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd am gerbydau sy'n rhwystro mannau croesi i gerddwyr. Rhoddwyd ystyriaeth i geisiadau a dderbyniwyd am linellau melyn dwbl mewn ardaloedd lle mae parcio yn achosi problem. Mae gwaith yn cael ei wneud i baratoi ar gyfer cyflwyno gwaharddiad cenedlaethol ar barcio ar balmentydd sydd i'w gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar gyflwyno parthau traffig 20mya mewn ardaloedd adeiledig.

## Blaenoriaeth 3.2: Byddwn yn parhau i weithio tuag at sicrhau cartrefi mwy addas a fforddiadwy yn y llefydd iawn i gwrdd ag anghenion lleol

### Parhau i asesu eiddo presennol y Cyngor ac eiddo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl anabl / Parhau i fuddsoddi mewn mân waith addasu a gwaith addasu mawr ar gyfer eiddo cyngor - tai cymdeithasol - trwy'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT), yn unol â Chynllun Busnes y CRT a chyllideb flynyddol y CRT

Mae swyddogion Tai yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion i flaengynllunio’r angen posibl, gan gynnwys y galw am addasiadau, gan sicrhau ein bod yn ymyrryd cyn gynted â phosibl er budd a lles ein preswylwyr ag anghenion iechyd a lles.

Parhau i fonitro lefelau perfformiad chwarterol o ran y nifer o ddiwrnodau a gymerir i gwblhau Ceisiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer gwelliant parhaus:

| **Canlyniadau dangosyddion perfformiad cenedlaethol 2022/23** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Dangosydd** | **Ch1** | **Ch2** | **Targed 2022/23** | **Perfformiad** |
| PAM/ 015 | Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 171 | 173 | **170** | ↓ |

# Amcan 4: Byddwn yn gwella canlyniadau o ran iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol

## Blaenoriaeth 4.1: Byddwn yn cynyddu'r nifer o bobl ym mhob sector o'r gymuned, yn enwedig pobl nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n llawn, sy'n dewis ffyrdd iach o fyw

### Symud ymlaen i sicrhau Dyfarniad Aur Insport erbyn Ebrill 2021

Nod y rhaglen Insport, dan arweiniad Chwaraeon Anabledd Cymru, yw sicrhau newid diwylliannol o ran agweddau a darparu gweithgareddau corfforol a chyfleoedd ehangach i bobl anabl.

Oherwydd materion o ran capasiti a llwyth gwaith, mae'n amlwg y bydd angen adnoddau a chyllid ychwanegol i allu cyflawni'r Wobr Aur. Bydd cydweithio gyda phartneriaid newydd a phresennol felly'n hanfodol i sicrhau bod y Wobr Aur yn cael ei chyflawni.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddwyd blaenoriaeth i gynnal agweddau allweddol prosiectau cynhwysol cyfredol Ynys Môn, yn ogystal ag anrhydeddu canlyniadau allweddol Gwobr Arian Insport.  Bu rhai cyflawniadau arwyddocaol yn ymwneud â datblygu clybiau a phobl, creu cyfleoedd cynhwysol, sefydlu perthnasoedd newydd a dod â phobl ynghyd i ffurfio fforwm Insport / anabledd ar Ynys Môn.

Mae ein llwyddiannau allweddol yn cynnwys:

- Buddsoddi mewn moderneiddio cyfleusterau yng Nghanolfan Hamdden Caergybi a Chanolfan Hamdden Plas Arthur ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys uwchraddio ystafelloedd newid, rheiliau llaw a theclynnau codi newydd.

- Roedd Gŵyl Pêl-droed Gwyl Cymru (digwyddiad Cwpan y Byd) yn cynnwys digwyddiad Anabledd ar Ynys Môn a ysbrydolodd y logo newydd a chreu Clwb Pêl-droed Llewod Môn.

Yn ogystal, cwblhawyd Arolwg Chwaraeon Ysgol gan Ysgol Addysg y Bont a llawer o ddisgyblion anabl eraill o ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Ynys Môn.  Mae canran y bobl anabl sy'n cymryd rhan mewn clybiau chwaraeon ar ôl ysgol yn faes allweddol sydd wedi'i amlygu ac yn ffactor arwyddocaol yn y dull newydd o sicrhau bod pob digwyddiad a gweithgaredd yn gynhwysol. Ystyriwyd adroddiad yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol gan ein Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 22 Tachwedd 2022.

### Parhau i gynnig Cynllun Cyfeirio Ynys Môn, gan weithio tuag at y targedau NERS cenedlaethol isod:

- Canran y cleientiaid NERS sy'n cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (50% ac uwch)

Mae'r Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol (NERS) yn targedu cleientiaid 16 oed a throsodd sydd â chlefyd cronig, neu sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd o'r fath.

Rhwng Ionawr a Rhagfyr 2022, cawsom 1284 o atgyfeiriadau gan weithwyr iechyd proffesiynol amrywiol. Aeth 604 o’r rhain ymlaen i fynychu eu sesiynau cyntaf, gyda 423 (70%) yn cwblhau 16 wythnos ar y cynllun ymarfer corff. Cyfeiriwyd pobl gan feddygon teulu, ffisiotherapi, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr iechyd meddwl a llawer mwy o weithwyr iechyd proffesiynol.

- Canran y cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau’r rhaglen ymarfer corff (80% ac uwch)

O'r 423 o bobl a gwblhaodd y cynllun, nododd 80% welliant mewn iechyd, gyda 18% yn aros yr un fath. Yn anffodus, roedd hyn yn golygu bod 2% wedi nodi dirywiad yn eu hiechyd. Fodd bynnag, o ystyried oedran a natur rhai o'r atgyfeiriadau, disgwylir y gallai rhai cyflyrau iechyd waethygu, yn enwedig pan fyddant newydd gael diagnosis. Un ffactor arall a allai gyfrannu at hyn yw ein bod yn cael rhai atgyfeiriadau yn llawer cynharach yn eu proses adfer.

Rydym hefyd wedi datblygu ein cynllun Dementia Actif, gyda 6 dosbarth yr wythnos bellach yn cael eu cynnal ar draws yr ynys a sesiynau nofio Dementia wythnosol yn cael eu hysbysebu.

## Blaenoriaeth 4.2: Byddwn yn creu’r amodau i unigolion wella eu hiechyd a’u llesiant

### Gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr iechyd sylfaenol yn Ynys Môn fel rhan o gynllun peilot i godi ymwybyddiaeth o’r gwasanaeth gwiriad iechyd blynyddol ar gyfer pobl a chanddynt namau dysgu:

Mae effeithiau hirdymor y pandemig COVID-19 yn parhau i effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd. Mae nifer yr ymwelwyr i feddygfeydd meddygon teulu ar gyfer archwiliadau iechyd wedi bod yn sylweddol is na blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae Cyswllt Iechyd yn parhau i gadw cofrestrau anabledd dysgu'r feddygfa yn gyfredol ac yn darparu cyngor a chefnogaeth pan fo angen. Mae cyflawniadau eleni yn cynnwys:

- nyrs Gyswllt Sylfaenol amser llawn newydd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn, gyda chymorth Gweithiwr Cynnal Gofal Iechyd

- rhaglen hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd Dysgu newydd wedi’i chyflwyno gan Gwelliant Cymru, gyda Chyswllt Iechyd yn ei chyflwyno fesul cam ac yn cynnig ei chyflwyno i bob meddygfa.

- dyfeisio ffordd arloesol newydd o weithio gyda phobl ag anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru nad ydynt yn gallu mynychu meddygfeydd yn bersonol - mae'r prosiect 'Lab mewn Bag' newydd yn cynnwys cydweithio rhwng Cyswllt Iechyd a'r Nyrsys Anabledd Dysgu Cymunedol, a fydd yn ymweld â dinasyddion 'mewn perygl' yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r Hyrwyddwyr Gwiriad Iechyd (a gefnogir gan Cyswllt Conwy), oedolion ag anableddau dysgu, yn parhau i gyflwyno sesiwn addysgu ar bwysigrwydd mynychu gwiriad iechyd i'w cyfoedion ar draws Gogledd Cymru.

### Parhau i hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg:

Cafwyd adborth cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ynghylch ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Yn ei Adroddiad Adolygu Gwerthuso Perfformiad diweddar, a gafodd ei ystyried gan ein Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 19 Ionawr 2023, nododd yr Arolygiaeth:

"Mae ymrwymiad CSYM i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn gadarnhaol. Mae CSYM yn dangos ei ymrwymiad drwy ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024. Gwelsom dystiolaeth gyson a chalonogol bod pobl yn derbyn y 'Cynnig Rhagweithiol' i siarad Cymraeg, a chymerwyd dymuniadau pobl i ystyriaeth o ran dewis iaith."

Mae ein Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i roi Cynnig Rhagweithiol o wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i bob cwsmer.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chefnogaeth Adnoddau Dynol a'r Tîm Polisi a'r Gymraeg, wedi creu cynllun gweithredu mewnol yn seiliedig ar Gynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-27. Mae'r camau nesaf yn cynnwys datblygiadau mewn perthynas â hyfforddiant a chymorth pellach i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Mae Gwasanaethau Oedolion wedi derbyn peth adborth cadarnhaol gan deuluoedd yn ystod y flwyddyn, o ran gwerthfawrogiad o'r ffordd y mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg a diwylliant cerddorol mewn gofal cartref a gofal preswyl wedi cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

# Amcan 5: Byddwn yn gwella diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder

## Blaenoriaeth 5.1: Byddwn yn cynyddu nifer y troseddau casineb ac aflonyddu sy'n cael eu riportio a chymryd camau i leihau achosion o droseddau casineb ac aflonyddu, yn cynnwys camdriniaeth a bwlio ar-lein

### Parhau i weithio â phartneriaid ledled gogledd Cymru er mwyn dwyn sylw at y broblem o droseddau casineb ac annog pobl i hysbysu Heddlu Gogledd Cymru neu Cymorth i Ddioddefwyr yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb (WYTC) Cymru Gyfan

Yn ystod WYTC 2022 yng Ngogledd Cymru, gweithiodd Cymorth i Ddioddefwyr Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Thimau Cydlyniant Cymunedol Gogledd-ddwyrain a Gogledd-orllewin Cymru gyda'i gilydd i gynnal sesiwn ar-lein i archwilio'r rhwystrau i riportio troseddau casineb.

Mae gwaith partneriaeth yn parhau – yn ystod yr WYTC blynyddol a thrwy gydol y flwyddyn – i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo adrodd i Heddlu Gogledd Cymru neu Gymorth i Ddioddefwyr. O dan Amcan 1, ceir hefyd amlinelliad o'r hyn sy'n digwydd yn ysgolion yr ynys i godi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â throseddau casineb.

## Y Gweithgor Troseddau Casineb aml-asiantaeth i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu troseddau casineb er mwyn gwella dulliau riportio a chefnogi unigolion sy'n ddioddefwyr troseddau casineb (yn unol â'r amserlenni a nodir yn y cynllun gweithredu ar gyfer atal troseddau casineb)

Mae mynd i'r afael â throseddau casineb wedi'i brif ffrydio i'n gweithrediadau arferol o ddydd i ddydd. Trwy hyfforddiant a datblygiad, mae ein swyddogion Tai yn gwbl gyfarwydd â throseddau casineb ac yn gallu adnabod yr arwyddion a'r symptomau. Mae'r gwasanaeth Tai yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a Chymorth i Ddioddefwyr er mwyn cefnogi dioddefwyr troseddau casineb a dod â chyflawnwyr i gyfrif am eu trosedd.

Mae swyddogion tai hefyd yn gweithio'n agos gyda lleoliadau addysg er mwyn codi ymwybyddiaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n cynnwys troseddau casineb.

## Blaenoriaeth 5.2: Byddwn yn sicrhau bod gan Aelodau a Swyddogion y Cyngor y gallu i gyflawni eu dyletswyddau diogelu yn effeithiol, drwy hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau

### Defnyddio'r Porth Polisi[1] er mwyn sicrhau bod yr holl staff presennol a staff newydd (y mae ganddynt gyfrifon e-bost) wedi darllen, deall a derbyn y Polisi Diogelu Corfforaethol

Lansiwyd y Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig drwy'r Porth Polisi ym mis Mai 2022, gyda'r disgwyl i staff ddarllen a derbyn y polisi. Caiff lefelau cydymffurfio eu mesur a'u hadrodd i'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth unigol ac i'r Tîm Arweinyddiaeth. Roedd yr adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd 2022 yn nodi bod 94% o'r rhai yr oedd disgwyl iddynt dderbyn y polisi wedi gwneud hynny.

Mae diogelu hefyd wedi'i gynnwys fel rhan o broses sefydlu'r Awdurdod.

### Sicrhau bod Staff ac Aelodau yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant am agweddau perthnasol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol, yn unol â chyfarwyddyd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol:

Mae'n ofynnol i bob gweithiwr ymgymryd â hyfforddiant gorfodol o ran diogelu plant ac oedolion, yn unol â'n fframwaith hyfforddi Diogelu Corfforaethol. Darperir hyfforddiant arbenigol hefyd yn unol ag anghenion penodol y gweithlu.

At ei gilydd, mae lefelau cydymffurfio da o ran hyfforddiant diogelu e-ddysgu gorfodol. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Corfforaethol (Tachwedd 2022) a gafodd ei ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'r Cyngor ar 17 Ionawr 2023.

## Blaenoriaeth 5.3: Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth am dwyll mewn cymunedau sy'n agored i niwed

### Parhau i weithio â phartneriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth a darparu addysg i gymunedau lleol ar sut i ddelio â galwyr digroeso, troseddau stepen drws, twyll wyneb yn wyneb ac anghydfodau cyffredinol cwsmeriaid:

Fe wnaeth ein tîm Safonau Masnach gofnodi a delio â 57 o gwynion / ymholiadau yn ymwneud â sgamiau yn benodol. Anfonwyd 5 llythyr a phecyn gwybodaeth at ddefnyddwyr a gydnabyddir fel "dioddefwyr" trwy'r Hyb Sgamiau Cenedlaethol. Anfonwyd sawl sticer 'Dim Galw Heb Wahoddiad' at unigolion bregus sy'n byw naill ai y tu mewn neu'r tu allan i Barth Dim Galw Heb Wahoddiad. Rhoddwyd rhybuddion a negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol ynghylch galwyr diwahoddiad a masnachwyr twyllodrus. Buom yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i nodi anghenion dioddefwyr posibl sgamiau.

[1] Pwrpas y Porth Polisi (system rheoli polisïau electronig) yw sicrhau bod ein staff yn deall ac yn cael eu hatgoffa am rai gofynion a osodwyd arnynt.

Derbyniodd Safonau Masnach tua 700 o gwynion, ymholiadau a cheisiadau am gyngor gan ein partneriaid yng Ngwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth, ac arweiniodd 233 ohonynt at ymchwiliadau ac ymyriadau pellach i ddefnyddwyr mewn anghydfodau. Cyflwynwyd 3 sgwrs addysgol yn y gymuned i grwpiau bregus

# Amcan 6: Byddwn yn cynyddu mynediad at gyfranogiad er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau

## Blaenoriaeth 6.1: Mae cyrff gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu

### Cymryd yr holl gamau angenrheidiol yn lleol er mwyn cefnogi'r ymgyrch genedlaethol i ehangu cyfranogiad yn etholiadau lleol 2022:

I gefnogi ein hymrwymiad i fod yn Gyngor Amrywiol[2], rydym wedi:

- codi ymwybyddiaeth am rôl cynghorwyr trwy wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol
- cynnal sesiynau rhithwir 'Byddwch yn Gynghorydd' ar gyfer ymgeiswyr posibl (ym mis Chwefror) ac ymgeiswyr (ym mis Ebrill), gyda sesiynau ar wahân ar gyfer yr etholiadau cynghorau sir a chymuned.

Cyflogwyd swyddog dros dro i annog pobl ifanc dros 16 oed a dinasyddion tramor i gofrestru i bleidleisio yn yr etholiadau lleol. O ganlyniad:

- cynyddodd nifer y rhai 16/17 oed ar y gofrestr o 445 ym mis Rhagfyr 2021 i 1,058 ym mis Mai 2022
- cynyddodd dinasyddion tramor cymwys ar y gofrestr o 0 i 76

O fis Mai 2022, cynyddodd nifer y seddi oedd ar gael ar y Cyngor Sir o 30 i 35. Cynhaliwyd etholiad ar gyfer pob sedd, gyda chyfanswm o 101 o ymgeiswyr ac 17 Aelod newydd yn cael eu hethol. Cynyddodd nifer y Cynghorwyr benywaidd o 10% (3) yn 2017 i 23% (8).

### Gwneud defnydd o weithredu cadarnhaol fel rhan o'r broses o recriwtio aelodau cyfetholedig:

Mae aelodau cyfetholedig yn cael eu recriwtio am dymor penodol i gynrychioli maes diddordeb penodol neu fater i'w ystyried.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i draean o aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg. Ar gyfer Ynys Môn, mae hyn yn golygu bod nifer yr aelodau lleyg sydd eu hangen ar y Pwyllgor wedi cynyddu o ddau i bedwar.

Yn adroddiad y llynedd, fe wnaethom esbonio sut yr aethom ati i recriwtio aelodau lleyg newydd drwy weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a chymryd rhan yn ei rhaglen hyrwyddo genedlaethol. Hysbysebwyd y swyddi gwag yn eang, gan gynnwys cyfryngau yr oedd pobl ifanc yn debygol o'u defnyddio, yn unol â dyletswydd y Cyngor i ddenu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

[2] Bu i'r Cyngor fabwysiadu datganiad Cyngor Amrywiol ym mis Medi 2021.

Arweiniodd y broses recriwtio at y Cyngor yn derbyn 13 o geisiadau. Yn dilyn proses llunio rhestr fer a chyfweld gadarn, llenwyd y swyddi gwag yn llwyddiannus mewn cyfarfod o'n Cyngor ar 25 Ebrill 2022.

Mae pedwar o'n pwyllgorau yn cynnwys aelodau cyfetholedig, gyda chyfanswm o 15 sedd. Ym mis Rhagfyr 2022, roedd dwy sedd wag. O'r 13 aelod cyfetholedig mewn swydd, roedd y proffil rhyw yn weddol gytbwys, gyda 6 (46%) o seddi gan fenywod.

## Blaenoriaeth 6.2: Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei wella drwy gryfhau cysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o'r holl grwpiau gwarchodedig

### Gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori perthnasol ymysg cynrychiolwyr o'r holl nodweddion gwarchodedig:

### Y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd i fabwysiadu Rhestr Wirio Ymgysylltu ac Ymgynghori a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan wasanaethau:

Ailsefydlwyd y bwrdd ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd o dan gyfarwyddyd ac arweiniad y Dirprwy Brif Weithredwr ym mis Rhagfyr 2021. Ers hynny, mae'r Bwrdd wedi diwygio ei gylch gorchwyl ac wedi parhau i roi arweiniad a chyfeiriad i wasanaethau yn y modd a'r modd y cynhelir ymgynghoriadau. Mae'r rhestr wirio yn parhau i gael ei defnyddio a'i dosbarthu ymhlith gwasanaethau'r Cyngor, er mwyn cael sicrwydd bod ymgynghoriadau'n cael eu cynnal mewn modd cyson, yn ddibynol ar y pwnc.

Mae gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori wedi esblygu yn ystod 2022 a gellir ei dystio drwy'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori sy'n gysylltiedig â datblygu ein hamcanion strategol. Wrth wneud hynny, defnyddiwyd amrywiol ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori

- Gweithdai
- Fforymau wyneb yn wyneb
- Holiaduron digidol
- Trafodaethau cyngor ysgol
- Fforymau pobl hŷn
- Holiaduron 'hawdd eu darllen'.

Buom hefyd yn cynorthwyo'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ drwy gylchredeg yr holiadur drwy ein llyfrgell deithiol. Hefyd, defnyddiwyd meddalwedd penodol i ddadansoddi'r canfyddiadau a dangos bod gwahanol grwpiau o bobl wedi ymateb.

Yn ystod 2023, rydym yn bwriadu parhau i gryfhau ein trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu â chynrychiolwyr yr holl nodweddion gwarchodedig, wrth i ni fabwysiadu strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus newydd fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth newydd.

### Parhau i weithio ar ymgysylltu gyda'n partneriaid rhanbarthol (fel aelodau o Rwydwaith Gogledd Cymru[3]) drwy wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i ni

Mae'r Rhwydwaith wedi bod yn cydweithio ers 2010 pan ddaeth y Ddeddf Cydraddoldeb i rym.  Ers hynny, mae nifer o weithgareddau ymgysylltu rhanbarthol â rhanddeiliaid wedi'u cynnal i lywio ein gwaith.

Mae aelodau'r Rhwydwaith yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ac arfer dda.

[3] Rhwydwaith o swyddogion cydraddoldeb sector gyhoeddus Gogledd Cymru

## Amcan 7: Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol er mwyn adnabod y meysydd allweddol o effaith sydd angen rhoi sylw iddynt o dan bob amcan

### Datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd cymdeithasol economaidd a sicrhau bod y ddyletswydd yn dod yn rhan annatod o'n busnes o ddydd i ddydd (unwaith y bydd arweiniad pellach ar gael)

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein Porth Polisi i sicrhau bod rheolwyr a staff perthnasol yn ymwybodol o ofynion y ddyletswydd. Roedd yr adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth i'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd 2022 yn nodi bod pawb yr oedd disgwyl iddynt dderbyn y papur wedi gwneud hynny. Mae gwybodaeth hefyd i'w chael ar ein safle mewnrwyd (MonITor) ac mae cymorth ar gael gan ein Tîm Polisi a'r Gymraeg.

### Adolygu canllawiau a thempledi corfforaethol er mwyn sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r angen i leihau anfanteision cymdeithasol-economaidd gweler hefyd Blaenoriaeth 8.2:

Adolygwyd ein templedi ar gyfer adroddiadau pwyllgor ac asesiadau effaith yn ôl ym mis Ebrill 2021 i gynnwys adrannau penodol i gofnodi unrhyw oblygiadau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd. Mae mwy o wybodaeth i'w gweld yma.

### Defnyddio ein Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol er mwyn adrodd ar ddatblygiadau a dangos sut yr ydym yn cydymffurfio â'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd:

Gweler uchod.

## Amcan 8: Byddwn yn gwella gweithdrefnau'r Cyngor er mwyn sicrhau tegwch i bawb

### Blaenoriaeth 8.1: Mae rhaglen hyfforddiant staff wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod gan y staff cywir y sgiliau cywir er mwyn darparu gwelliannau o ran amrywiaeth

#### Parhau i godi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg staff y Cyngor yn ystod sesiynau cynefino corfforaethol a drwy hysbysu staff sydd â chyfrifon e-bost y Cyngor bod angen iddynt ddarllen, deall a derbyn y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn un o'r polisïau allweddol yn system rheoli perfformiad electronig y Cyngor (Porth Polisi). Caiff lefelau cydymffurfio eu mesur a'u hadrodd i'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth unigol ac i'n Tîm Arweinyddiaeth. Roedd adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd 2022 yn nodi bod 96% o'r rhai oedd yn disgwyl derbyn y polisi wedi gwneud hynny.

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd wedi'u cynnwys fel rhan o broses anwytho'r Awdurdod.

#### Parhau i hyrwyddo hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer yr holl staff ac ymateb yn y modd priodol lle mae anghenion penodol wedi eu hadnabod:

Mae hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn parhau i fod yn elfen allweddol o'r rhaglen hyfforddi gorfforaethol. Ceir rhagor o fanylion yn y prif adroddiad.

### Blaenoriaeth 8.2: Mae proses gorfforaethol effeithiol wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau bod effaith yn cael ei asesu'n barhaus ar draws y gwasanaethau

#### Parhau i ddarparu cyfleoedd o ran cefnogi a datblygu aelodau a swyddogion er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth ddigonol am eu dyletswyddau tuag at bobl â nodweddion gwarchodedig:

Yn ogystal â'r hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, mae cyfle i staff perthnasol ac aelodau etholedig fynychu hyfforddiant asesu effaith cydraddoldeb. Mae'r sesiwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a sut mae'n berthnasol i'r angen i asesu effaith ar gydraddoldeb.

Mae ein Strategaeth Datblygu Aelodau yn nodi y byddwn yn darparu hyfforddiant a datblygiad hyblyg ac ymatebol i aelodau etholedig sy'n seiliedig ar anghenion unigol a sefydliadol. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth ac asesu effaith ar gydraddoldeb yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r hyfforddiant a ddarperir i'n cynghorwyr.

Adolygu'r templedi canlynol er mwyn cryfhau'r cyswllt â'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd:

- Templedi adroddiadau Sgriwtini
- Templed ac arweiniad AEC corfforaethol:

Gweler amcan 7.

Cefnogi penderfyniadau a wneir yng nghyd-destun Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol:

- Adolygu'r Strategaeth Gwestiynu ar gyfer aelodau sgriwtini
- Datblygu cyfres stoc o gwestiynau ar gyfer aelodau sgriwtini, yn seiliedig ar Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Sgriwtini a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adolygwyd y strategaeth holi ar gyfer aelodau sgriwtini yn ystod 2020 fel rhan o adolygiad o'n rhaglen datblygu sgriwtini lleol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **15.03.2023** |
| **Pwnc:** | **Y Gronfa Ffyniant Bro – Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **I adrodd ar gais Gronfa Ffyniant Bro y Cyngor Sir** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng. Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Christian Branch** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Tudur Jones**<br>**2146**<br>**tudurjones@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau lleol:** | **Perthnasol i bob aelod** |

**1 – Argymhelliad/ion**

Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn…

1. Nodi'r cynnydd o ran datblygu cais i'r Gronfa Ffyniant Bro
2. Cydnabod rôl y Cyngor wrth ddatblygu a chyflwyno'r cais
3. Cefnogi gweithredu'r Gronfa Ffyniant Bro (yn unol â'r dyddiadau cau, allbynnau cytunedig ayb.)

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Datblygwyd y Gronfa Ffyniant Bro yng nghyd-destun ein blaenoriaethau corfforaethol ac mae polisïau a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol eraill yn sail i'r Cynllun (h.y. Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru, Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r Papur Gwyn ar Ffyniant Bro).

Strategaethau Lleol:

- Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, 2018)
- Cynllun y Cyngor 2017 -2022 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2017)
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ynys Môn 2020 –2024 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2020)
- Cynllun Trosiannol Ynys Môn (ar ôl y pandemig) 2022-2023 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2022)
- Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn (Cyngor Sir Ynys Môn, 2019)
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011 –2026 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2017)
- Cynllun Tuag at Sero Net Cyngor Sir Ynys Môn 2022-2025 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2022)

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Mae'r adroddiad yn trafod rôl sylweddol partneriaid i gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus. Beth yw rôl yr Awdurdod Lleol wrth fonitro cyflawniad yn erbyn y blaenoriaethau allweddol?
2. Beth yw'r risgiau allweddol a sut y mae eu rheoli i sicrhau bod ffrydiau gwaith y Gronfa yn cael eu cyflawni?
3. Pa drefniadau fydd yn eu lle i reoli'r prosiectau unigol a'r rhaglen yn gyffredinol er mwyn gallu cyflawni llwyddiannus?
4. I ba raddau mae'r rhaglen LUF fel y mae wedi cymeradwyo yn galluogi'r Awdurdod Lleol i wireddu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023/28?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cyflwyniad i'r Gronfa Ffyniant Bro**

Y Gronfa Ffyniant Bro yw prif gronfa gyllido Llywodraeth y DU. Cynlluniwyd y Gronfa Ffyniant Bro i fuddsoddi mewn seilwaith economaidd-gymdeithasol craidd sy'n gwella bywyd bob dydd ledled y DU. Bydd y gronfa werth £4.8 biliwn – a lansiwyd ym mis Mawrth 2021 – yn canolbwyntio ar 3 prif faes:

1. Cefnogi canol trefi ac adfywio'r stryd fawr,
2. Prosiectau trafnidiaeth leol, ac
3. Asedau diwylliannol a threftadaeth.

O ganlyniad i'r amserlenni afrealistig i ddatblygu cais digon manwl, penderfynodd y Cyngor Sir beidio â chyflwyno cais fel rhan o rownd gyntaf y Gronfa Ffyniant Bro yn gynnar yn 2021. Yn hytrach, penderfynwyd canolbwyntio ar wahodd datganiadau o ddiddordeb gan bartneriaid allanol ar gynlluniau y gellid eu cyflawni ar y cyd â'r Cyngor Sir i baratoi ar gyfer ail rownd y Gronfa Ffyniant Bro.

Mae modd cefnogi prosiectau werth hyd at £20m a darparwyd £125,000 o gyllid i gefnogi costau datblygu.

Yn ystod yr asesiad daeth yn amlwg mai dim ond y cais, a oedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion economaidd-gymdeithasol Caergybi, fyddai'n debygol o fodloni gofynion penodol Llywodraeth y DU ac o fod yn llwyddiannus. Roedd y gofynion hyn yn

cynnwys gallu gwario'r arian yn syth: cyflawni'r prosiect erbyn 2025; dangos gwerth am arian; a meddu ar gysyniad statudol (neu, gallu dangos nad oes unrhyw rwystrau i sicrhau cysyniad statudol) ac arian cyfatebol. Penderfynwyd y byddai'r cais, a oedd yn ymwneud â nodweddion 'treftadaeth; diwylliannol a threflun' Caergybi yn hytrach nag adfywio'r Ynys gyfan, yn debygol o apelio mwy i Lywodraeth y DU.
Doedd yr un o'r Datganiadau o Ddiddordeb eraill a gyflwynwyd yn bodloni'r gofynion manwl hyn ac oherwydd yr amserlenni, ni fyddai wedi bod yn bosib bwrw ymlaen â hwy a'u datblygu'n ddigonol.

Cyflwynwyd 5 Datganiad o Ddiddordeb o Gaergybi. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Cymunedau'n Gyntaf Môn a'r Cyngor Tref
2. Yr Eglwys yng Nghymru
3. Canolfan Ucheldre
4. Yr Amgueddfa Forol
5. Cyngor Sir Ynys Môn – Adfywio Treftadaeth

Yn dilyn y broses agored i gyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb, ar 3$^{ydd}$ Mawrth 2022 penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gefnogi cynnig y Swyddogion i ganolbwyntio ar ddatblygu cais a oedd yn canolbwyntio ar ddiwylliant, treftadaeth ac adfywio Caergybi

## 2. Datblygu'r Cais a Gwaith Partneriaeth

Ni ellir tan werthfawrogi cymaint o waith a aeth i mewn i ddatblygu'r cais a pha mor gymhleth oedd y gwaith hwnnw. O ganlyniad, bu cydweithio dwys â phartneriaid o Gaergybi ar lefel a manylder nas gwelwyd ers tro gan y Tîm.

Wrth lunio'r cais roedd rhaid cael stori glir a threfnus a oedd yn canolbwyntio ar ymdeimlad o le, sydd yn hanfodol, a diffinio'n glir sut y mae'r holl gydrannau'n cydblethu a sut y byddant yn dod yn rhan o'r siwrnai ehangach i sicrhau ffyniant yn yr ardal.

Cafodd ceisiadau llwyddiannus eu hasesu yn erbyn pedwar maen prawf allweddol (pob un werth 25%):

1. Nodweddion yr ardal (lefel blaenoriaeth Awdurdod Lleol y Gronfa Ffyniant Bro a bennwyd ar gyfer Ynys Môn oedd #2)
2. A yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a blaenoriaethau'r Gronfa Ffyniant Bro
3. Gwerth am arian
4. Cyflawnadwyedd – Cyllid, gallu gwario'r arian yn syth a chyflawni'r prosiect erbyn 2025, rheolaeth ac achosion masnachol, a monitro a gwerthuso.

Roedd rhaid asesu'r meini prawf ar sail pasio /methu.

Roedd datblygu'r cais hefyd yn golygu sicrhau gwybodaeth bellach a darparu cefnogaeth helaeth a manwl i'r 5 Datganiad o Ddiddordeb (Môn CF, Cyngor Tref Caergybi, Canolfan Ucheldre, y Cyngor Sir (Treftadaeth) a'r Eglwys yng Nghymru) a chynnal trafodaethau gyda hwy i asesu aeddfedrwydd a hyfywdra pob prosiect a sut y maent yn cyd-fynd ag egwyddorion a gofynion y Gronfa Ffyniant Bro. Ceir crynodeb o'r allbynnau y mae pob prosiect unigol yn debygol o'u cyflawni yn Atodiad A.

Ym mis Mehefin 2022, penderfynodd yr Aelod Portffolio gefnogi cyflwyno cais y Cyngor Sir i Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

Cyflwynwyd y cais "Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth" ar 6 Gorffennaf 2022.

Mae'r cais yn amlinellu sut y bydd yn atal dirywiad yng nghanol y dref, ac ennyn balchder ymysg trigolion. Bydd yn helpu i drawsnewid y dref drwy sicrhau buddsoddiad gwerth £22.5m, yn cynnwys £17m o'r Gronfa Ffyniant Bro, a sicrhau manteision gwirioneddol gwerth dros £54m i'r gymuned leol.

Mae'r cynnig yn cynnwys pecyn o brosiectau i gynyddu cyflogaeth; gwella canol y dref a phrofiad ymwelwyr; cynyddu'r nifer y bobl sy'n ymweld â'r dref a'u cael i wario mwy yn y dref; a chynyddu mynediad at gelfyddyd, diwylliant a hamdden.

Dylid nodi bod arian cyfatebol tuag brosiect y Gronfa Ffyniant Bro wedi'i gadarnhau'n llawn a'i fod yn dod o ffynonellau cyllido'r prosiectau eu hunain. Nid yw'r Cyngor Sir – ac eithrio ar gyfer ei brosiect mewnol ei hun – wedi darparu unrhyw arian cyfatebol i noddwyr y prosiectau.

### 3. Canlyniadau'r cais i'r Gronfa Ffyniant Bro

Ar 18 Ionawr 2023, clywodd y Cyngor Sir bod ei gais i'r Gronfa Ffyniant Bro wedi bod yn llwyddiannus a bod y swm llawn wedi'i ddyrannu iddo, sef £17m.

O'r 529 o geisiadau a gyflwynwyd yn y DU yn ystod yr ail rownd, dim ond 111 (20%) oedd yn llwyddiannus. Mae hyn yn dangos bod Ynys Môn wedi cyflwyno cais o safon uchel iawn a'i fod wedi bodloni meini prawf a gofynion manwl Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a mwy.

Mae gwybodaeth bellach am y cais ar gael yma ar wefan y Cyngor a hefyd yn Atodiad B

### 4. Rôl y Cyngor sir o ran cyflawni'r Gronfa Ffyniant Bro

Er nad oes gan y Cyngor Sir – ac eithrio yn ystod y prosiect Treftadaeth – rôl uniongyrchol o ran cyflawni'r Gronfa Ffyniant Bro, mae ganddo rôl hanfodol i'w chwarae o ran rheoli a gweithredu'r rhaglen gyffredinol yn llwyddiannus.

Mae Rheolwr Rhaglenni profiadol wedi cael ei benodi i oruchwylio'r gwaith o reoli'r rhaglen, a gweithio'n agos gyda'r 5 partner a sicrhau eu bod yn cyflawni'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr achos busnes gwreiddiol a gyflwynwyd fel rhan o'r cais, gan gadw at y costau, cwblhau'r gwaith ar amser a chyflawni'r holl allbynnau. Bydd cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cyllid hefyd yn chwarae rhan allweddol o safbwynt monitro, cydymffurfiaeth a rheoli risg.

Bydd y rôl strategol newydd hon i'r Cyngor Sir yn golygu ffordd newydd o gyflawni'r rhaglen a ffordd newydd o weithredu ar ran pobl Ynys Môn. Mae'n adlewyrchu'r rôl y bydd y Cyngor Sir yn ei mabwysiadu wrth gyflawni a gweithredu dulliau cyllido eraill Llywodraeth y DU, megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Mae fframwaith Llywodraethu newydd wrthi'n cael ei baratoi er mwyn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau clir yn cael eu mabwysiadu ar y lefel briodol o fewn y Cyngor Sir, yn â ogystal sicrhau mewnbwn a chymorth allanol lle bo angen. Bydd Bwrdd Rhaglen hefyd yn cael ei sefydlu i sicrhau bod mesurau llywodraethiant cadarn ar waith a bydd Swyddogion yn helpu i graffu ar benderfyniadau cyn eu bod yn cael eu trosglwyddo i bartneriaid y prosiectau, yn enwedig mewn meysydd megis caffael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r rheoliadau.

Mae'r Cyngor Sir hefyd yn y broses o lunio cytundebau cyfreithiol pwrpasol rhwng y Cyngor â'r pum sefydliad cyflawni (partneriaid y prosiect) i sicrhau bod rolau, cyfeirebau, trefniadau llywodraethiant, monitro perfformiad, ceisiadau ayb. yn cael eu hamlinellu a'u cytuno o'r cychwyn cyntaf. Byddant yn seiliedig ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan Lywodraeth y DU.

Mae'r terfyn amser yn heriol a rhaid gwario'r £17m, erbyn mis Mawrth 2025, ac felly bydd y fframweithiau hyn o gymorth wrth gyflawni'r rhaglen. Mae trafodaethau anffurfiol wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth y DU i ofyn am estyniad y tu hwnt i fis Mawrth 2025.

**5. Y risgiau sydd ynghlwm â'r Gronfa Ffyniant Bro**

Mae rhywfaint o risgiau wedi dod i'r amlwg o safbwynt cyflawni prosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro ar Ynys Môn, maent yn cynnwys:

1. Cynnydd nad oes modd ei ragweld mewn costau deunyddiau o ganlyniad i ansefydlogrwydd a natur anrhagweladwy'r sector adeiladu.
2. Anallu'r Cyngor i ddarparu cyllid ychwanegol os bydd costau'n cynyddu y tu hwnt i'r £17m.
3. Risg i'n henw da, fel y Corff sy'n gyfrifol am weithredu'r rhaglen ar Ynys Môn, os na chaiff yr holl brosiectau eu cyflawni. Bydd hyn yn denu llawer o ddiddordeb allanol.
4. Bod yn ddibynnol ar bartneriaid allanol sydd ddim o reidrwydd yn meddu ar brofiad o gyflawni cynlluniau o'r fath a'r risg y byddant yn tangyflawni ar y prosiectau a gymeradwywyd.
5. Amserlenni heriol yn enwedig gan fod yr wybodaeth dipyn yn araf yn ein cyrraedd ni o Lywodraeth y DU i'n galluogi i roi'r cynlluniau ar waith gyda sicrwydd a hyder a heb risg.
6. Y Cyngor methu â manteisio'n llawn ar y cyfle y mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn ei chynnig.

**6. Ffynonellau Cyllido Eraill**

Er bod yr arian a sicrhawyd drwy'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer Caergybi yn unig mae'n bwysig nodi bod ffynonellau cyllido eraill yn dal i fod ar gael i rannau eraill o Ynys Môn. Mae gwaith asesu a sgorio yn mynd rhagddo fel rhan o'r Gronfa Ffyniant Bro ar hyn o bryd ac mae rowndiau pellach yn yr arfaeth. Mae gan Lywodraeth Cymru gyllid Canol Trefi ar gael ac fe allwn hefyd sicrhau cyllid penodol ar gyfer Gogledd Ynys Môn drwy'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA).

| 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1 Yr effaith bosib ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Dim – caiff ceisiadau gan ac ar gyfer grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 eu trin yr un fath a gellir targedu cyllid tuag at y grwpiau hynny. |
| **6.2 Yr effaith bosib ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Cadarnhaol – mae'n bosib y gellid targedu'r cyllid tuag at y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| **6.3 Yr effaith bosib ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg.** |
| Cadarnhaol – trwy greu cyfleoedd gwaith yn yr ardal y gobaith yw y bydd mwy o siaradwyr Cymraeg yn elwa o'r cyfleoedd hynny ac y byddant yn aros yn yr ardal leol. |

| 7 – Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Niwtral - nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar y Cyngor Sir gan fod y costau i ddatblygu'r cais a goblygiadau staffio wedi cael eu talu a byddant yn cael eu cyfarch drwy ffynonellau allanol. |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| **A – Manylion am Brosiectau'r Partneriaid Cyflawni**<br>**B – Crynodeb o'r Cais i'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer Caergybi** |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| |

Atodiad A

Trosolwg o Brosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro a'u Hallbynnau

1. Estyniad sylweddol i Ganolfan Gelfyddydau Ucheldre - i ddarparu cyfleusterau gwell a mwy o gapasiti er mwyn galluogi'r sefydliad diwylliannol allweddol hwn i dyfu a chyrraedd mwy o bobl.

2. Adnewyddu Eglwys Cybi Sant, adeilad rhestredig Gradd 1 ac un o brif asedau treftadaeth Caergybi, ynghyd ag Eglwys y Bedd, er mwyn sefydlu hwb cymunedol i helpu pobl leol a dod a mwy o fwrlwm i ganol y dref.

3. Estyniad sylweddol i Gyngor Tref Caergybi a Hwylfan Canolfan Empire, prif atyniadau dan do'r dref, i ymorol am y galw cynyddol a gwella edrychiad Traeth Newry i ddarparu cyfleusterau gwell i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

4. Bydd Môn CF yn rhoi rhaglen ar waith i adfer adeiladau gwag, gan dargedu rhai o'n hadeiladu mwyaf ac amlycaf i greu mannau cymunedol cynaliadwy a bywiog, a sicrhau bod yr adeiladu hyn yn cael eu hachub ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

5. Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ymestyn ei raglen Trawsnewid Treflun hynod lwyddiannus i adnewyddu adeiladau treftadaeth er mwyn helpu i ddadwneud y dirywiad yng nghanol y dref. Byddant hefyd yn trawsnewid yr ardal gyhoeddus o amgylch Eglwys Cybi Sant er mwyn denu bob i ganol y dref, diweddau'r cyfleusterau i ymwelwyr a gosod gwylfan, a fydd yn cynnig golygfeydd trawiadol o'r Morglawdd, y Porthladd a'r Dref hanesyddol.

Bydd y cais hefyd yn cefnogi gwelliannau pellach i Ganolfan Ymwelwyr Parc y Morglawdd, yn cynnwys gwella'r llwybrau a'r ardal gyhoeddus a'r llwybrau a chysylltiadau rhwng y Parc Gwledig a chanol y dref, fel bod mwy o bobl yn cael cyfle i ddysgu am dreftadaeth Caergybi, Ynys Cybi ac Ynys Môn.

| Partner Cyflawni'r Prosiect | Allbynnau er mwyn Cyflawni yn erbyn yr Achos Busnes |
|---|---|
| Cyngor Tref | • Creu neu wella'r gofod cymunedol (Hwylfan)<br>• Ffrynt/Ciosgau Traeth Newry |
| Môn CF | • Darparu gofod hamdden (Stiwdio Ddawns)<br>• Creu neu wella'r ardal yng Nghanol y Dref Town<br>• Unedau preswyl newydd a gwell<br>• Llety gwyliau newydd<br>• Gwella adeiladau adfeiliedig<br>• Unedau masnachol ychwanegol gyda chysylltiad band eang 30Mbps o leiaf<br>• Adnewyddu/adfer adeiladau treftadaeth |
| Eglwys Cybi Sant | • Creu neu wella'r gofod diwylliannol<br>• Adnewyddu/adfer adeiladau treftadaeth |
| Ucheldre | • Creu neu wella'r gofod diwylliannol/celfyddydol (Canolfan Ucheldre) |
| CSYM | • Creu neu wella'r ardal yng Nghanol y Dref (Prosiect Trawsnewid Treflun)<br>• Gwella adeiladau adfeiliedig (Prosiect Trawsnewid Treflun)<br>• Creu neu wella'r ardal gyhoeddus<br>• Creu, gwella neu adleoli'r mwynderau/cyfleusterau cyhoeddus<br>• Unedau masnachol ychwanegol gyda chysylltiad band eang 30Mbps o leiaf (Prosiect Trawsnewid Treflun)<br>• Adnewyddu/adfer adeiladau treftadaeth (Prosiect Trawsnewid Treflun) |

Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey

# Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth

## Cais Cronfa Codi’r Gwastad

Awst 2022

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

# Cynnwys


Crynodeb o'r Buddsoddiad ........................................................ 3

Caergybi: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth ................ 5

Canol tref sy'n gwneud cam â'i gymuned ........................................... 7

Adeiladu ar gyfle....................................... ....................................... 9

Canol tref y mae ei ffyniant yn amlwg................................................ 10

Canlyniadau – cyflawni newid ........................................................ 14

Ein tîm cyflawni profiadol.............................................................. 15


CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Crynodeb o'r Buddsoddiad

Risg isel sydd ynghlwm â chais Caergybi. Gan arwain at wahaniaeth gweladwy cyflym, bydd yn sicrhau £22.5m o fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat ac yn cyflenwi dros £54 o fuddion i'r gymuned leol.



### Ffryntiad y Traeth

Caiff cysgodfannau'r traeth, sydd mewn cyflwr gwael, eu hadnewyddu i'w defnyddio i ddarparu gwybodaeth i dwristiaid / man cyrraedd a gadael ar gyfer atyniadau lleol, ynghyd ag ar gyfer busnesau bwyd a diod.



### Prosiect Trawsnewid Treflun


Parhad prosiect tra llwyddiannus ar gyfer adnewyddu eiddo sydd wedi'i esgeuluso yng nghanol y dref. Buddsoddi mewn gwella golwg adeiladau i wella ymdeimlad o barch mewn lle, lleihau'r niferoedd o eiddo gwag, cynyddu'r niferoedd sydd wedi'u meddiannu, ynghyd â niferoedd yr ymwelwyr, a gwrthdroi diriwiad canol y dref.



### Ehangu'r Ucheldre

Canolfan Ucheldre yw prif ased y dref o safbwynt celfyddydol a diwylliannol. Mae'n brwydro ar hyn o bryd â diffyg lle a chapasiti. Bydd ehangu'r ganolfan yn darparu lle ar gyfer y rhaglen ddigwyddiadau helaeth, sy'n amrywio o weithgareddau ar gyfer rhieni a phlant, i gynyrchiadau theatr a sgrinio operâu.





### Rhaglen Eiddo Gwag




Mae'r Rhaglen yn ymwneud â phrynu ac adnewyddu eiddo sydd mewn cyflwr gwael/ yn wag yng nghanol y dref, ac mae'n adeiladu ar lwyddiant y Fenter Siopau Gwag. Y bwriad yw prynu pum adeilad allweddol a'u hadnewyddu i'w defnyddio er budd y gymuned.

### Ehangu'r Ganolfan Chwarae




Canolfan Chwarae'r Empire yw un o'r ychydig atyniadau dan do a geir yng Nghaergybi. Mae'n denu mwy o ymwelwyr ar hyn o bryd na'r capasiti sydd ar gael yno ar eu cyfer. Bydd cyflwyno'r prosiect ehangu yn diwallu'r angen am atyniad dan do/tywydd gwael ar gyfer pobl leol a thwristiaid (gan dargedu plant a theuluoedd).

### Eglwys Sant Cybi



Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd I, a dyma brif ased Caergybi o safbwynt treftadaeth. Defnyddir y cyllid i wneud yr eglwys yn lle mwy hyblyg a chanddo ogwydd cymunedol, a bydd yn creu 'deli' / caffi a redir fel menter gymdeithasol.

### Mannau Cyhoeddus a Gwella Profiad i Ymwelwyr



Canolfan ymwelwyr newydd ar gyfer Parc Gwledig y Morglawdd, ynghyd â gwella arwyddion a llwybrau i ganol y dref. Mae'r rhain yn mynd ar hyd glan y môr, ac yn cynnwys gwella mannau cyhoeddus yng nghyffiniau Eglwys Sant Cybi a'r Gaer Rufeinig.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Amcanion ein Cais

Yr amcan cyffredinol yw gwrthdroi dirywiad Canol y Dref, a chynyddu ymdeimlad preswylwyr o falchder yn y lle.

Tudalen 64

- Lleihau nifer yr adeiladau gwag neu sydd mewn cyflwr gwael
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant
- Cynyddu cyflogaeth a lleihau diweithdra
- Darparu arwynebedd llawr modern i ddiwallu anghenion busnesau
- Cynyddu a gwella mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a hamdden
- Sicrhau mwy o amrywiaeth o ran yr hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig a gwella profiad ein ymwelwyr

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# **Caergybi**: Trawsnewid o safbwynt diwylliant a threftadaeth

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Caergybi: gwneud gwahaniaeth gweladwy

Mae hanes, diwylliant a lleoliad naturiol arbennig Caergybi yn gryfderau a fydd yn gwasanaethu ei chymuned leol yn dda.

Maent yn golygu bod y dref mewn sefyllfa ddelfrydol i fanteisio ar fod yn un o borthladdoedd prysuraf y DU, gyda chysylltiadau i Ddulyn, tren i Llundain, ac yn borth i gyrchfan dwristiaid fyd-enwog.

Ond i wneud hynny, rhaid i ganol y dref fod yn addas i ymwelwyr, a bydd buddsoddi arian cyhoeddus ynddo yn awr yn gwneud gwahaniaeth gweladwy yn syth, gan ddenu buddsoddiad preifat a gwariant gan ymwelwyr, er budd cymunedau lleol.

Mae'r cais hwn yn dod â phartneriaid cryf o'r ardal leol, ynghyd â phecyn cydlynol a chynhwysfawr o ymyraethau dethol, at ei gilydd.

Fe wnaiff y cyfuniad hwn roi'r dref ar drywydd newydd, a mwy cynaliadwy.

Fel un o'r lleoedd a chanddo'r lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru, a'r un sydd wedi'i raddio uchaf o blith ardaloedd blaenoriaeth Lefel 2 yn Ail Rownd o Cronfa Codi'r Gwastad, mae'r cyfle i wneud gwahaniaeth yma'n aruthrol, ac yn fater o frys.



CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Canol tref sy'n gwneud cam â'i gymuned


Mae Ynys Môn yn wynebu sawl her economaidd, mae lefelau cynhyrchiant ac incwm yn isel, a diweithdra'n uchel - fe'i rhoddwyd ar frig y rhestr flaenoriaeth o bob ardal Lefel 2 yng Nghymru.

Caergybi, sef tref fwyaf yr ynys, yw'r un y mae arni angen y buddsoddiad mwyaf, a chanddi rai o'r cymdogaethau â'r lefelau amddifadedd gwaethaf yng Nghymru.

Mae hyn yn fwy a mwy amlwg yng nghanol y dref, lle mae'r cyfraddau gwacter mor uchel â 26%, sydd dros ddwywaith y cyfartaledd a geir ym mhedair ardal ganol tref arall yr ynys. Mae eiddo gwag yn difetha Caergybi, ac yn atal ymwelwyr, tra bo rhenti isel yn gwneud eu hadnewyddu a'u hailddatblygu'n anhyfyw.

Mae angen buddsoddiad cyhoeddus ar frys i fynd i'r afael â methiant y farchnad, i ddod a gweithgarwch yn ôl i Gaergybi, ac i sbarduno buddsoddiad gan y sector preifat.

## Mae canol tref fwyaf Ynys Môn yn dioddef














CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Gwrthdroi dirywiad Canol Tref Caergybi

# Adeiladu ar gyfle

Ceir cyfle enfawr i greu newid yng Nghaergybi – a chanddi gryfderau sylfaenol arbennig iawn, sy'n aros am gyfleoedd i'w datgloi. Mae ei hanes a'i diwylliant yn ei gwneud yn gyrchfan ddelfrydol i ymwelwyr, ond rhaid buddsoddi ynddi.

Ac mae'r ymwelwyr hynny yma'n barod – mae gan Gaergybi gysylltiadau da o gymharu â'r mwyafrif o gymunedau arfordirol ymylol. Mae trên uniongyrchol i Lundain, ynghyd â fferi uniongyrchol i Ddulyn, yn ogystal â phorthladd ar gyfer llongau mordeithio, yn golygu bod dwy filiwn o ymwelwyr yn pasio trwy'r dref bob blwyddyn.

Mae'n borth twristiaeth ar gyfer Eryri a Gogledd Cymru, tra bo Ynys Môn eisoes yn gyrchfan boblogaidd ynddi'i hun, y mae pobl wrth eu boddau'n ymweld â hi. Dylai Caergybi, fel ei thref fwyaf, fod yn fan aros naturiol i ymwelwyr, a bydd ein cynlluniau'n rhoi rheswm i ymwelwyr wneud hynny.

Ceir ymdeimlad aruthrol o falchder dinesig yng Nghaergybi, ond mae gweld holl wead canol y dref yn edwino o'u blaenau yn lladd ysbryd y gymuned. Bydd buddsoddiad yn newid hyn, fel bod yr ymdeimlad o falchder yn cael ei wireddu a'i adlewyrchu yng ngolwg y lle.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



Eglwys Sant Cybi a'r Gaer Rufeinig



Canolfan Ucheldre



Neuadd y Farchnad

# Canol tref y mae ei ffyniant yn amlwg

Caiff preswylwyr a thwristiaid, fel ei gilydd, fudd o’r cynllun buddsoddi cydgysylltiedig gan y Gronfa Codi’r Gwastad.

Bydd lleihau cyfraddau gwacter a denu mathau newydd o ddefnydd yn darparu swyddi i breswylwyr lleol, ynghyd ag opsiynau gwell o ran bwyta, yfed, siopa a hamdden.

Bydd yn rhoi hwb i dwristiaeth hefyd, ac yn manteisio ar dwf yn nifer y llongau mordeithio sy’n ymweld â’r porthladd.

Mae harddwch naturiol Ynys Môn a Gogledd Cymru’n gofyn am ganol trefi deniadol i gwblhau’r profiad bob tywydd sydd ar gael i ymwelwyr. Fe wnawn ni hynny yng Nghaergybi trwy gyfuno gwelliannau o ran yr hyn a gynigir o safbwynt diwylliant a threftadaeth, ynghyd â mynediad gwell i lan y môr, a phecyn o newidiadau i gyflwyno gweithgareddau i ganol y dref, a’i gweddnewid i greu canol tref sy’n dibynnu llai ar fanwerthu.

Bydd y cyfleoedd newydd o ran gwariant a chyflogaeth yn fodd i adfywio economi leol a chanol tref ddiffygiol, yn ogystal ag ailddefnyddio asedau a lleihau trosedd. Bydd y gwelliannau o safbwynt cymunedol yn creu newid a fydd yn weladwy i bobl leol.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



# Dod â diwylliant a threftadaeth i'r amlwg

- **Eglwys Sant Cybi**
  Bydd y seren ymhlith holl asedau treftadaeth Caergybi, sydd wedi'i rhestru'n Radd 1, yn ehangu i greu hyb cymunedol, a fydd yn helpu pobl leol ac yn creu mwy o weithgarwch yng nghanol y dref.

- **Y Gaer Rufeinig a Sgwâr Swift**
  Caiff mannau cyhoeddus yng nghyffiniau Eglwys Sant Cybi ei drawsnewid gyda chyfleusterau i ymwelwyr wedi'u huwchraddio, a fydd yn cynnwys platfform y gellir gweld yr olygfa ohono.

- **Canolfan Gelfyddydol Ucheldre**
  Bydd cyfleusterau gwell, ynghyd ag ehangu ei gapasiti, yn galluogi'r sefydliad diwylliannol allweddol hwn i dyfu ei raglen a chyrraedd rhagor o bobl.

- **Canolfan Chwarae'r Empire**
  Gan gwblhau'r cyfuniad o ddarpariaeth i bawb o bob oed, caiff un o brif atyniadau dan do'r dref ei ehangu i gwrdd â'r galw sy'n uchel eisoes.








CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Gwneud y gorau o asedau naturiol

- **Ffryntiadau Traeth Newry**
  Cyfleusterau gwell i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd, er mwyn iddynt gael mynd at lan môr y dref a'i mwynhau. Mae ffryntiadau'r traeth yn rhan o Lwybr Treftadaeth y Morglawdd i dywys teithwyr llongau mordeithio i mewn i ganol y dref.

- **Canolfan Ymwelwyr Treftadaeth y Morglawdd**
  Bydd llwybrau gwell o'r parc gwledig ar gyrion Caergybi yn caniatáu i ragor o bobl gael dysgu am dreftadaeth Caergybi ac Ynys Môn. Bydd gwelliannau o safbwynt mannau cyhoeddus yn cyfeirio twristiaid i mewn i ganol y dref a thuag at asedau treftadaeth lleol.







CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Hwb o’r newydd i Ganol y Dref

- **Trawsnewid y Treflun**
  Bydd hyn yn caniatáu i ni ehangu ein rhaglen dra llwyddiannus o adnewyddu eiddo treftadaeth adfeiliedig yng nghanol y dref - a fydd yn gwrthdroi dirywiad canol y dref.

- **Y Rhaglen Eiddo Gwag**
  Bydd Môn CF yn prynu rhai o’r eiddo gwag mwyaf ac amlycaf ac yn creu modd newydd a ffyniannus o’u defnyddio gan y gymuned. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth gweladwy yng nghanol y dref, ac yn denu mwy o bobl i mewn iddo.



Taclo doluriau llygaid



Canlyniad ymyrraeth flaenorol Môn CF



CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Canlyniadau

Caiff y cyfuniad o'r holl ymyraethau hyn eu dylunio gyda'i gilydd i wneud y dref yn lle gwell i ymweld â hi ac i dreulio amser ynddi hi, gan adfer yr ymdeimlad o falchder yn y lle.

Bydd y cais yn cyflwyno cyfanswm o £22.5m o ran buddsoddiad, gan gynnwys £17m o'r Gronfa Codi'r Gwastad, a fydd yn cyflenwi £54m o fuddion (GPN).

Bydd torri'r cylch o ddirywiad o safbwynt manwerthu, trwy gynnig darpariaeth amgen o ran atyniadau treftadaeth a chymunedol, yn dod ag ymwelwyr i'r dref, ynghyd â gwariant a fydd yn creu rhagor o fomentwm.

Bydd hefyd yn cyfrannu at dargedau Sero Net trwy adnewyddu adeiladau presennol, gan arwain at ostyngiad mawr yn y carbon sy'n rhan annatod ohonynt, o gymharu ag adeiladau newydd.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



## Cynnig gwell o safbwynt diwylliant, y celfyddydau a hamdden

- sy'n caniatáu i ragor o bobl feithrin diddordeb yn eu treftadaeth

Cynnig ehangach o gelfyddydau a diwylliant (tua 575 metr sgwâr) yng Nghanolfan Ucheldre, yn denu 17,500 o ymweliadau ychwanegol y flwyddyn

Stiwdio ddawns newydd (114 metr sgwâr) ar gyfer 60 o ddawnswyr ychwanegol pob wythnos

Canolfan chwarae fwy (tua 190 metr sgwâr) sy'n lleihau'r rhestr aros ac yn caniatáu 16,000 mwy o ymweliadau pob blwyddyn

Cynnig gwell yn Eglwys Sant Cybi, ynghyd â chyflwyno nodweddion treftadaeth yn fwy effeithiol, sy'n caniatáu yr eglwys i wireddu ei photensial fel atyniad allweddol i ymwelwyr

## Canol tref fywiog a chynaliadwy

Cael ailddefnyddio 25 o adeiladau gwag / adfeiliedig

8 Gwella blaenau siopau o fewn yr ardal gadwraeth

20 o gartrefi newydd neu wedi'i ailwampio a 7 llety gwyliau

Dros 65 o swyddi newydd (cyfartal ac amser llawn), 6 phrentisiaeth newydd a thros 85 o gyfleoedd gwirfoddoli

Codi Gwerth Tir (£1.2m yn uniongyrchol, a £4.7m yn anuniongyrchol)

## Effeithiau

Gwariant uchel yng nghanol y dref

Llai o ddiweithdra

Mwy o bobl yn meithrin diddordeb yn y celfyddydau / hamdden / treftadaeth

Cynyddu llesiant

Llai o drosedd

Hybu'r ymdeimlad o falchder yn y lle

Taclo tlodi bwyd ac amddifadedd cymdeithasol

Hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Annog teithio llesol

# Ein tîm cyflawni profiadol

## Cyngor Sir Ynys Môn

Mae’r prosiect hwn yn adeiladu ar waith blaenorol a gyflawnwyd gan y Cyngor, gan gynnwys Cronfa Treftadaeth y Loteri a chyllid Llywodraeth Cymru. Mae’r Cyngor yn gyfrifol am sawl un o’r asedau a gynhwysir o fewn y prosiect, gan gynnwys y prosiectau Trawsnewid Treflun, ynghyd â Mannau Cyhoeddus a’r Profiad i Ymwelwyr.

## Cyngor Tref Caergybi

Bu’r Cyngor Tref a’r Maer yn rhan annatod o bennu’r prosiectau hyn, a datblygwyd estyniad y Ganolfan Chwarae a’r cynigion ar gyfer Ffryntiadau’r Traeth ganddynt.

## Môn CF

Elusen sy’n eiddo i’r gymuned, sy’n cefnogi ardaloedd o amddifadedd, sy’n uwchsgilio’r boblogaeth leol, ac yn helpu pobl i gael swyddi.

Mae gan Môn CF hanes ardderchog eisoes o safbwynt y gwaith a wnaed ganddynt i sicrhau y caiff eiddo gwag yng nghanol y dref eu hailddefnyddio.

Mae gan Môn CF gynlluniau ar gyfer eiddo yng nghanol y dref, sy’n barod i’w rhoi ar waith unwaith y bydd cyllid ar gael.

## Esgobaeth Bangor

Mae Esgobaeth Bangor yn elusen gofrestredig. Ymhlith yr asedau cyfalaf a reolir ganddi y mae dros 170 o adeiladau eglwysi, gan gynnwys yr holl waith adnewyddu a datblygu. Mae Eglwys Sant Cybi yn rhan o brosiect Llefa’r Cerrig (‘Stones Shout Out’) sy’n ymdrechu i ddiogelu, adnewyddu a gwella pump o eglwysi harddaf a mwyaf hanesyddol yr Esgobaeth.

## Canolfan Ucheldre

Canolfan gelfyddydau gymunedol yw Ucheldre, a chanddi statws elusen gofrestredig. Dyma’r unig leoliad ar gyfer y celfyddydau perfformio ar Ynys Môn, ac mae’n chwarae rôl werthfawr o safbwynt rhoi cyfle i’r gymuned leol gael manteisio ar bob math o weithgareddau artistig.

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council

# Ynys Môn

# THE ISLE OF Anglesey





CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

yma i helpu Môn CF here to help

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

CANOLFAN UCHELDRE CENTRE

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **15 Mawrth 2023** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru, Chwarter 3 2022/23** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno Adroddiad Chwarter 3 Cynllun Twf Gogledd Cymru** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng. Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor**<br><br>**Cyng. Carwyn Jones, Deilydd Portffolio Datblygu'r Economi, Hamdden a Thwristiaeth** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams. Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr**<br>**01248 752499**<br>**DylanWilliams@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** Nodi'r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod chwarter 3 2022/23 |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r cyngor trwy:<br>▪ Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor- swyddi a chyfleoedd gwaith<br>▪ Gweithio gyda chynghorau eraill Gogledd Cymru i ddenu buddsoddiad i sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth leol yn mynd rhagddo |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal |

- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**Cefndir**

5.1 Ym mis Rhagfyr, 2020 fe wnaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

5.2 Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

**5.3 Cynnydd Chwarter 3 2022/23**

5.3.1 Mae adroddiad perfformiad Chwarter 3 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

5.3.2 Y chwarter hwn, gwelwyd cymeradwyo diweddariad Achos Busnes y Portffolio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.

5.3.3 Yn dilyn tynnu prosiectau Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan a Fferm Sero Net Llysfasi yn ôl o'r Cynllun Twf, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais rai penderfyniadau allweddol ynghylch ailglustnodi cyllid o fewn y cynllun. Yn gyntaf, mae Cronfa Cyflawni'r Portffolio ar gyfer 2023-24 wedi'i sefydlu i gefnogi prosiectau aeddfed o fewn y portffolio sy'n ymdopi â chwyddiant costau neu faterion hyfywedd i symud i gyflawni. Yn ail, cytunodd y Bwrdd ar y meini prawf ar gyfer clustnodi £13m ar gyfer y broses newid prosiectau a gaiff ei lansio ddechrau 2023. Mae hwn yn gyfle cyffrous i adnabod prosiectau uchelgeisiol, arloesol a thrawsffurfiol ar gyfer y Cynllun Twf a chyflawni swyddi a buddsoddiad yn y rhanbarth.

5.3.4 Mae diweddariad Chwarter 3 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni diwygiedig y portffolio a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2022. Mae pedwar prosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf - mae'r prosiect yn wynebu materion cymedrol, yn cynnwys oedi yn amserlen yr Achos Busnes Llawn, ac oedi yn yr amserlen gaffael wrth i gyfnod ymgysylltu â'r farchnad gael ei ymestyn. Mae'r materion yn derbyn sylw gan y tîm prosiect.
- Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) - mae'r prosiect yn cael ei adolygu gan fod Prifysgol Bangor wedi datblygu cynnig i gyflawni'r prosiect

| |
|---|
| mewn dau gam. Mae Cam 2 y prosiect yn dal i gael ei adolygu a disgwylir penderfyniad am elfen hon y prosiect yn Chwarter 4.<br>• Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon – caniatâd cynllunio i'w sicrhau a bwlch ariannu posib yn sgil costau cyfalaf adeiladu yn cynyddu.<br>• Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol - gwaith ar ddatblygu'r prosiect wedi'i oedi yn sgil materion cyllid cyfatebol ac edrych am leoliadau amgen ar gyfer y prosiect. |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Bydd y Byrddau Rhaglen a'r Byrddau Prosiect yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol ar gyfer bob prosiect unigol. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw ac yn esblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Gweler 6.1 uchod |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Gweler 6.1 uchod |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| 7.1 Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| 1. Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

## Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2022-23 (Hydref i Ragfyr 2022)

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# Cynnwys yr Adroddiad

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio3

2. Perfformiad y Portffolio4

3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol**Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel7

5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo5

6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth13

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel15

8. Diweddariad ar Gynnydd y Prosiectau16

9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 202218

10. Tabl Olrhain - Trosolwg o gyflawni (Rhagfyr 2022) 19

11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 202220

12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf21

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf22

# 1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio

Yn ystod y chwarter hwn gwelsom rai datblygiadau sylweddol wrth gyflawni'r Cynllun Twf.

Yn dilyn tynnu prosiectau Bodelwyddan a Llysfasi yn ôl o'r Cynllun Twf, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais rai **penderfyniadau allweddol** ynghylch ailglustnodi cyllid o fewn y cynllun. Yn gyntaf, mae'r Bwrdd wedi sefydlu **Cronfa Cyflawni'r Portffolio** ar gyfer 2023-24 i gefnogi prosiectau aeddfed o fewn y portffolio sy'n ymdopi â chwyddiant cost neu faterion hyfywedd i symud i gyflawni.

Yn ail, cytunodd y Bwrdd ar y meini prawf ar gyfer clustnodiad o £13m ar gyfer y **broses newid prosiectau** a gaiff ei lansio ddechrau 2023. Mae hwn yn gyfle cyffrous i adnabod **prosiectau uchelgeisiol, arloesol a thrawsffurfiol** ar gyfer y Cynllun Twf a chyflawni swyddi a buddsoddiad yn y rhanbarth.

Mae **Achos Busnes y Portffolio sydd wedi'i ddiweddaru** bellach wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.

Mae'r prosiect Ychydig % Olaf wedi lansio ymarferiad **ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar** y chwarter hwn er mwyn ceisio barn y gweithredwyr rhwydwaith telegyfathrebu ar sgôp a dyluniad y prosiect cyn i'r fanyleb caffael gael ei diffinio. Mae'r cyfnod rhybudd ffurfiol yn cau ar 20 Ionawr gydag ymgynghoriadau dilynol i'w trefnu gyda gweithredwyr. Mae hwn yn weithgaredd allweddol i sicrhau ein bod yn medru cyflwyno cynnig deniadol i'r farchnad yng ngham nesaf y prosiect.

Mae peth **oedi pellach** wedi bod yn y rhaglen Tir ac Eiddo, yn benodol y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y bydd penderfyniad y panel adolygu ar brosiectau Warren Hall, Brychdyn a Phorth y Gorllewin, Wrecsam wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol arfaethedig sydd i'w gyhoeddi yn 2023. Fodd bynnag, mae peth **cynnydd cadarnhaol** wedi'i wneud ar brosiect Parc Bryn Cegin gyda'r egwyddor o'r Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Hydref.

Gan edrych ymlaen, mae 2023 yn addo i fod yn flwyddyn gyffrous i Uchelgais Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf, a disgwylir cynnydd sylweddol eleni ar ein prosiectau presennol ynghyd â'r cyfle i ddewis prosiectau newydd i ymuno â'r Cynllun Twf. Mae wir yn adeg gyffrous iawn.



*Alwen Williams*

**Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio**

# 2. Perfformiad y Portffolio

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
| --- | --- | --- |
| Achos Busnes y Portffolio | | Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio ym mis Hydref ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. |
| Piblinell Cyflawni | | Mae'r biblinell gyflenwi yn cael ei hadolygu a'i diweddaru fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022 ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi. Mae'r prosiectau bellach yn adrodd yn erbyn yr amserlen ddiwygiedig. Mae Cronfa Cyflawni Portffolio ar gyfer 2023-24 wedi'i sefydlu i gefnogi prosiectau aeddfed i symud i gyflawni y flwyddyn nesaf. |
| Llywodraethu | | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau. |
| Sicrwydd | | Mae trydydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i gwblhau gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr' ar gyfer y portffolio. |
| Adnoddau a Chapasiti | | Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i staffio'n llawn ar hyn o bryd, ond mae cyfran fawr o'r staff ar gontractau tymor penodol ac mae'r gyllideb refeniw ar ôl mis Mawrth 2024 yn heriol. |
| Cyllid | | Mae hawliadau ar gyfer prosiect y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol wedi'u talu, roedd hyn yn cynnwys gwariant yn 21/22 yn ogystal â 22/23 sef cyfanswm o £1,762,612. Mae'r gwariant sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol hon hyd yma yn ymwneud â thynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio. |
| Buddsoddiad | | Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi. |
| Risg | | Mae'r proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf, er bod rhai risgiau sylweddol i gyflawni'r Cynllun Twf a gwireddu'r buddion. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod y risg fwyaf sy'n wynebu'r portffolio, a chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi a chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu yw'r prif ffactorau sy'n gyrru'r cynnydd hwn. Mae'r risg ynghylch capasiti wedi cynyddu yn sgil faint o amser sydd ar ôl ar gontractau tymor penodol. |
| Monitro a Gwerthuso Buddion | | Cafodd y Strategaeth Gwireddu Buddion a Chynlluniau Monitro a Gwerthuso Portffolio eu hadolygu fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022, gyda newidiadau yn cynnwys modelau rhesymeg wedi'u diweddaru (sy'n adlewyrchu terminoleg fframwaith buddion y cytunwyd arnynt), drafftio cynlluniau buddion rhaglenni a chysylltiadau cliriach â chynlluniau buddion prosiect. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | | Yn y chwarter hwn, gwelwyd nifer o erthyglau yn cael eu rhyddhau ar ein methodoleg newid hinsawdd, fe wnaethom ymuno â'r sgwrs am COP27 a COP Cymru, fe wnaethom rannu canfyddiadau ynghylch sut y byddwn yn rhoi sylw i heriau cysylltedd symudol ac fe wnaethom ddathlu Cymru yng Nghwpan y Byd. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cydweithio â Bargeinion Twf a Dinesig eraill ledled Cymru i gynhyrchu adroddiad uchelgeisiau ar gyfer 2022. |

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)

Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)

Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)

# 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol



| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae'r cyntaf o ddau Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer y prosiect DSP (ar gyfer gwariant blwyddyn 2) wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo. Yn ddarostyngedig ar gymeradwyaeth ym mis Ionawr, bydd gwaith caffael yn mynd rhagddo ar gyfer cam nesaf y prynu offer.<br>• Mae'r prosiect Ychydig % Olaf wedi lansio ymarferiad Ymgysylltu â'r Farchnad yn Gynnar y chwarter hwn. Rydym yn ceisio barn y gweithredwyr rhwydwaith telegyfathrebu ar sgôp a dyluniad y prosiect cyn i'r fanyleb caffael gael ei diffinio. Mae'r cyfnod rhybudd ffurfiol yn cau ar 20 Ionawr gydag ymgynghoriadau dilynol i'w trefnu gyda gweithredwyr.<br>• Penodwyd rheolaeth prosiect a chefnogaeth ymgynghori ar gyfer y prosiectau Campws Cysylltiedig a Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig yn Chwarter 3, gyda Spirit Public Sector Ltd bellach yn ymestyn capasiti a gallu'r PMO i ddatblygu'r achosion busnes hyn. |





Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol** Prifysgol Bangor | Cyflwyno | • Cyflwyno'r Achos Cyfiawnhad Busnes cyntaf ar gyfer gwariant Blwyddyn 2. | • Cymeradwyo'r Cynllun Cyfiawnhad Busnes a chaffael. | | • Achos Economaidd gyda'r Achos Cyfiawnhau Busnes i'w ddiwygio cyn cymeradwyo. |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar wedi dechrau.<br>• Dewisiadau dogfennau contract wedi'u hadnabod drwy ymgynghori â Llywodraeth y DU. | • Cyfnod rhybudd Ymgysylltu â'r Farchnad yn Gynnar yn cau, adolygu ymatebion ac ymgynghoriadau dilynol gyda diwydiant.<br>• Penodi cefnogaeth gyfreithiol a dogfennau contract terfynol drafft a manylebau caffael. | | • Oedi yn yr amserlen gaffael wrth i gyfnod ymgysylltu â'r farchnad ymestyn i wella ymatebion. Amcanion gwariant yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Recriwtio Spirit Public Sector Ltd i ddarparu ymgynghoriaeth a chymorth rheoli prosiectau.<br>• Adolygiad o achos dros newid y prosiect ac opsiynau ar gyfer strwythur yr Achos Amlinellol Strategol. | • Drafftio Achos Amlinellol Strategol. | | • Cymorth allanol bellach yn ei le yn dilyn yr oedi gyda chaffael. Cytunwyd ar gynllun i gyflwyno'r achos busnes gyda'r bwrdd prosiect. |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Recriwtio Spirit Public Sector Ltd i ddarparu ymgynghoriaeth a chymorth rheoli prosiectau.<br>• Adolygiad o achos dros newid y prosiect ac opsiynau ar gyfer strwythur yr Achos Amlinellol Strategol. | • Drafftio Achos Amlinellol Strategol. | | • Cymorth allanol bellach yn ei le yn dilyn yr oedi gyda chaffael. Cytunwyd ar gynllun i gyflwyno'r achos busnes gyda'r bwrdd prosiect. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Ynni Lleol Blaengar:** Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddatblygu ac ar drac i gael ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Mawrth 2023.<br>• **Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth:** Y ffordd ymlaen y cytunwyd arni ar gyfer y prosiect yw dod ag ariannwr prosiect ymlaen drwy broses ddethol gystadleuol. Mae'r PMO yn datblygu'r broses, y meini prawf a'r cwestiynau manwl ar gyfer y broses gyda chymorth gan arbenigwr ar y diwydiant hydrogen. Y nod yw cael cymeradwyaeth gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd i lansio'r broses yn Chwarter 4.<br>• **Egni:** Mae Prifysgol Bangor yn parhau i ddatblygu eu cynnig ar gyfer cyflawni'r prosiect mewn dau gam. Mae'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 1 wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'w adolygu. Mae Cam 2 y prosiect yn dal i gael ei adolygu a disgwylir penderfyniad yn Chwarter 4 ynghylch a fydd yr elfen hon o'r prosiect yn parhau o fewn y Cynllun Twf.<br>• **Cydnerth (Morlais)**: Gwaith cyfalaf a ariennir gan WEFO ar brosiect seilwaith Morlais yn parhau ar gyllideb ac ar amserlen. Bydd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer gwaith a ariennir drwy'r Cynllun Twf yn dechrau ym mis Ionawr 2023.<br>• **Trawsfynydd:** Mae opsiynau ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol a'r defnydd o gyllid y Cynllun Twf yn cael eu hystyried. Nod Cwmni Egino yw cwblhau'r cynnig busnes ar gyfer cam cyntaf y cynllun datblygu tri cham ehangach, gan gynnwys amserlenni, amcangyfrif o gostau a strategaeth fuddsoddi erbyn mis Mawrth 2023.<br>• Caffael contractwr a recriwtio i swyddi newydd ar gyfer y Cynlluniau Ynni Ardal Leol wedi'u cwblhau. |





Y Cynghorydd Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Henry Aron
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnerth (Morlais)**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Gwaith cyfalaf a ariennir gan WEFO ar brosiect seilwaith Morlais yn parhau ar gyllideb ac ar amserlen.<br>• Fe wnaeth Megallanes Renovables ymweld â'r Gogledd ym mis Tachwedd. Fel y defnyddwyr cyntaf disgwyliedig o barth Morlais, maent bellach wedi sefydlu llwybrau cyfathrebu gyda rhanddeiliaid allweddol. | • Datblygu Achos Busnes Amlinellol newydd a chyflwyno gweithdai.<br>• Gweithio gyda datblygwyr llanw i baratoi cyflwyniadau ar gyfer y Contractau ar gyfer Gwahaniaeth Arwerthiant Rownd 5 | Gwyrdd | • Prosiect ar y trywydd iawn heb unrhyw risgiau neu broblemau sylweddol. |
| **Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Y ffordd ymlaen y cytunwyd arni ar gyfer y prosiect yw dod ag ariannwr prosiect ymlaen drwy broses ddethol gystadleuol.<br>• Daeth ein gwaith gydag arbenigwyr caffael i'r casgliad nad caffael ffurfiol fyddai'r dull optimaidd er mwyn cael ariannwr prosiect ymlaen. O ganlyniad, mae opsiwn o ddefnyddio proses sy'n debyg i 'Broses Newid Prosiectau' y Cynllun Twf yn cael ei ddatblygu.<br>• Fe wnaeth y gwaith hefyd arwain at gynnig i ganolbwyntio cyfalaf y Cynllun Twf ar alluogi galw am hydrogen.<br>• Rydym yn datblygu'r broses, y meini prawf a'r cwestiynau manwl ar gyfer y broses gystadleuol gyda chymorth gan arbenigwr ar y diwydiant hydrogen. | • Derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar gyfer y broses ddethol er mwyn cael ariannwr ymlaen a lansio'r broses. | Ambr | • Mae'r sgôr ambr yn adlewyrchu'r risg y gallai'r broses gaffael er mwyn cael ariannwr ymlaen fod yn hirach na'r disgwyl. |



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel

| **Prosiect**<br>(Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol**<br>**(y chwarter hwn)** | **Cerrig Milltir Allweddol**<br>**(y chwarter nesaf)** | **Statws RAG** | **Rhesymeg RAG** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni)**<br>Prifysgol Bangor | *Prosiect yn cael ei adolygu* | • Mae Prifysgol Bangor yn parhau i ddatblygu eu cynnig ar gyfer cyflawni'r prosiect mewn dau gam.<br>• Mae'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 1 wedi'i ddatblygu ac yn disgwyl cymeradwyaeth gan Fwrdd Gweithredol Prifysgol Bangor.<br>• Mae Cam 2 y prosiect yn dal i gael ei adolygu a disgwylir penderfyniad am elfen hon y prosiect yn Chwarter 4. | • Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd i'r cais i newid i symud i Gam 1.<br>• Penderfyniad ar gadw Cam 2'r prosiect o fewn y Cynllun Twf.<br>• Cwblhau Adolygiad Porth a phroses gymeradwyaeth ar gyfer Achos Busnes Amlinellol Cam 1. | (Coch) | • Mae'r sgôr yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi dro ar ôl tro mewn prosiectau ac effaith cais newid cyllid cyfalaf ar Amcanion Gwariant y Rhaglen. |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Caffael ymgynghorwyr arbenigol newydd (31ten Consulting).<br>• Achos Busnes Amlinellol Drafft wedi'i gwblhau yn dilyn cyfres o weithdai.<br>• Cyflwyno Astudiaethau Dichonolrwydd Cronfa Adfywio Cymunedol (CRF) wedi'i gwblhau ar gyllideb ac ar amserlen. | • Cwblhau Adolygiad Porth a phroses gymeradwyaeth ar gyfer Achos Busnes Amlinellol.<br>• Dosbarthu'r adroddiadau Cronfa Adnewyddu Cymunedol yn ehangach ac adnabod y camau nesaf. | (Gwyrdd) | • Sgôr ambr oherwydd yr oedi posibl a achosir gan angen annisgwyl i benodi ymgynghorydd arbenigol cronfa newydd. |
| **Trawsfynydd**<br>Cwmni Egino | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth rhwng NDA a Chwmni Egino wedi'i lofnodi'n ffurfiol - gwaith bellach yn mynd yn ei flaen ar sefydlu trefniadau prosiect i gefnogi'r chwe maes cydweithio.<br>• Mae opsiynau ar gyfer datblygu'r Achos Busnes Amlinellol a'r defnydd posib o gyllid y Cynllun Twf yn cael eu hystyried.<br>• Darparodd Cwmni Egino ddiweddariad i'r Bwrdd Portffolio ym mis Tachwedd. | • Datblygu Achos Busnes Amlinellol Drafft.<br>• Dechrau datblygu'r strategaeth gwerth cymdeithasol.<br>• Cwblhau cynnig busnes ar gyfer cam cyntaf y cynllun datblygu tri cham ehangach a'r cynllun prosiect, gan gynnwys amserlenni, amcangyfrif o gostau a strategaeth fuddsoddi. | (Ambr) | • Ansicrwydd ynghylch amserlen cyflawni prosiectau a'r posibilrwydd o oedi pellach. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

Tudalen 88

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2280 | £1.29bn | £355.4m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae'r Gweinidog wedi gwneud Datganiad Ysgrifenedig yn cadarnhau y bydd cyhoeddiadau **Warren Hall, Brychdyn** a **Phorth y Gorllewin, Wrecsam** yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol arfaethedig sydd i'w gyhoeddi yn 2023.<br>• **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** – mae Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros wedi modelu llwybr caffael sy'n cydymffurfio i ddefnyddio cyllid Cam 1.<br>• **Porth Caergybi** - mae Stena Line wedi darparu Achos Busnes Amlinellol drafft ar gyfer y prosiect ymestyn y porthladd ac mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymateb gyda sylwadau. Mae Stena Line a Chyngor Môn wedi cyflwyno cais porthladd rhydd ar gyfer cyn Safle Alwminiwm Môn yng Nghaergybi.<br>• **Parc Bryn Cegin, Bangor** - Cymeradwywyd yr egwyddor o'r Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru yn Chwarter 3 2022. Mae Adroddiad Galw'r Farchnad wedi'i dderbyn ac mae'r Achos Busnes Amlinellol bellach ar ffurf drafft datblygedig. |





Y Cynghorydd Jason McLellan
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam / Wrexham County Borough Council | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog wedi cadarnhau y bydd y penderfyniad ar Gyffyrdd yr A483 wedi'i gynnwys gyda'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol yn 2023.<br>• Mae Cyngor Wrecsam wedi comisiynu Astudiaeth Ddichonoldeb i asesu sut y bydd y Strategaeth Lleihau Ffosffad yn cael ei chyflenwi gan ddefnyddio Porth y Gorllewin fel enghraifft o safle datblygu tir glas.<br>• Mae Mott Macdonald wedi dechrau arolygon safle (ymchwiliad safle a bioamrywiaeth). | • Cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Wrecsam.<br>• Astudiaeth Dichonoldeb Ffosffad i adrodd i'r Cyngor ar gyflawni mesurau lleihau a lliniaru ar gyfer safleoedd datblygu newydd.<br>• Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam. | | • Mae penderfyniad y Panel Adolygu Ffyrdd ar uwchraddio cyffordd yr A483 yn hanfodol i'r prosiect hwn. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol yn 2023.<br>• Strategaeth Lleihau a Lliniaru Ffosffad i amlinellu'r mesurau y gellid eu defnyddio ar safle'r prosiect. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog wedi cadarnhau y bydd y penderfyniad ar Warren Hall wedi'i gynnwys gyda'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol yn 2023.<br>• Disgwylir i Gynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint gael ei fabwysiadu yn gynnar yn 2023. | • Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Gweinidogion ar briffyrdd safle Warren Hall, yna disgwyliwn ffurfioli'r trafodaethau gyda LlC ar gyflawni'r prosiect. | | • Rhagwelir Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn Chwarter 1 2023 bellach.<br>• Disgwylir cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol i Gymru a fydd yn cyhoeddi'r penderfyniad ar Warren Hall yn 2023. |
| ***Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl (Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan)*** | *Mae prosiect safle Strategol Allweddol Bodelwyddan wedi'i dynnu'n ôl. Nid oes prosiect newydd yn ei le wedi'i adnabod eto.* | | | | |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd gymeradwyo sefydlu Cronfa Cyflawni'r Portffolio ac mae'r prosiect hwn yn gymwys i ymgeisio am gyllid ychwanegol.<br>• Mae llwybr caffael i gyflawni gwaith Cam 1 yn cael ei drafod gyda'r holl bartion. | • Cadarnhau llwybr caffael sy'n cydymffurfio i gyflawni gwaith Cam 1.<br>• Cwblhau diwygio'r achos busnes amlinellol drafft sy'n ymgorffori'r Senario Datblygu Graddol a'r llwybr caffael.<br>• Cadarnhad cymeradwyaeth y Cais i'r Gronfa Ffyniant Bro, neu'r Gronfa Cyflawni'r Portffolio fel sy'n briodol. | | • Mae risg y prosiect yn adlewyrchu dibyniaeth ar gyllid newydd o'r Gronfa Ffyniant Bro / Cronfa Cyflawni'r Portffolio.<br>• Mae llwybr caffael ar gyfer gwaith Cam 1 yn defnyddio arian cyhoeddus i'w gadarnhau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| **Prosiect** (Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)** | **Statws RAG** | **Rhesymeg RAG** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn argymell cymeradwyo'r Cytundeb Menter ar y Cyd<br>• Mae'r Adroddiad Dadansoddi'r Galw a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'i dderbyn a bydd yr argymhellion wedi'u cynnwys yn yr Achos Busnes Amlinellol drafft.<br>• Mae drafft cychwynnol o Achos Busnes Amlinellol a baratowyd gan y PMO wedi'i gwblhau i bob pwrpas. | • Bydd LIC yn penodi tîm o'u fframwaith gwasanaethau proffesiynol a thechnegol Gogledd a Chanolbarth Cymru.<br>• Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol.<br>• Adolygiad Porth 2 ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol. | | • Galw posibl gan feddianwyr.<br>• Tirfeddiannwr parod a phartner datblygu.<br>• Defnydd arfaethedig sy'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio.<br>• Dull menter ar y cyd i gyflawni'r prosiect bellach yn symud ymlaen yn ymarferol. |
| **Porth Caergybi**<br>Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae pryniant Stena o'r hen ffatri Orthios i'w ddefnyddio ar y cyd â'r porthladd.<br>• Mae Stena Line a Chyngor Môn wedi cyflwyno cais porthladd rhydd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddatgelu eu cynlluniau ar gyfer safle Orthios.<br>• Mae Achos Busnes Amlinellol drafft ar gyfer cyflawni'r gwaith o wella capasiti'r porthladd wedi derbyn sylwadau a'i ddychwelyd i Stena. | • Cynnydd sylweddol ar Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cyflawni'r gwaith o wella capasiti'r porthladd.<br>• Gorchymyn Adolygu Harbwr wedi'i gymeradwyo.<br>• Adolygiad Porth 2 ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol. | | • Gorchymyn Adolygu Harbwr yn disgwyl caniatâd.<br>• Peth ansicrwydd gyda chost y gwaith ar gyfer ehangu'r porthladd ac adnewyddu'r morglawdd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. | 380 | £281m | £41.3m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • **Rhwydwaith Talent Twristiaeth** - Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi cwblhau ei Achos Amlinellol Strategol (SOC) a'i rannu i'w adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) a thîm Sicrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Adolygiad Porth 1 ym mis Tachwedd 2022. Daeth yr Adolygiad Porth i gasgliad gyda sgôr Ambr-Gwyrdd, ac mae'r Bwrdd Rhaglen wedi cadarnhau y dylai'r prosiect symud ymlaen i Achos Busnes Amlinellol gan roi sylw i'r argymhellion o'r ddau adolygiad.<br>• **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon** - Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi croesawu cynrychiolwyr o dîm cynllunio Cyngor Gwynedd i Goleg Glynllifon fel rhan o'u proses o ystyried cynllunio ar gyfer prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon. |



**Cyng Charlie McCoubrey**
**Aelod Arweiniol**



**Jane Richardson**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Robyn Lovelock**
**Rheolwr Rhaglen**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth



| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Gwaith parhaus gydag ymgynghorwyr ar ddylunio'n datblygu costau ar sail buddion i gyd-fynd ag amlen ariannu.<br>• Cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn edrych ar opsiynau i lenwi'r bwlch ariannu sydd wedi'i achos gan chwyddiant<br>• Cais am gyngor cynllunio wedi'i gyflwyno. | • Mynd ymlaen drwy brosesau cyn-gynllunio a cheisiadau cynllunio llawn.<br>• Cyflwyno cais am £2m o Gronfa Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â'r bwlch ariannu.<br>• Drafftio'r Achos Busnes Llawn. | | • Bwlch ariannu yn erbyn Achos Busnes Amlinellol sydd wedi'i gymeradwyo.<br>• Costau adeiladu cyfalaf cynyddol.<br>• Caniatâd cynllunio i'w sicrhau. |
| **Fferm Sero Net Llysfasi**<br>Coleg Cambria | *Mae prosiect Fferm Sero Net Llysfasi wedi'i dynnu'n ôl. Mae prosiect newydd yn cael ei adnabod drwy alwad cyhoeddus am Fynegiannau o Ddiddordeb ym mis Ionawr 2023.* | | | | |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Pob un o'r pum gweithdy achos busnes gyda rhanddeiliaid wedi'u cwblhau.<br>• Achos Amlinellol Strategol wedi'i ddrafftio a'i gyflwyno i'w adolygu gan y PMO ac Uned Sicrwydd Llywodraeth Cymru.<br>• Canlyniad Ambr-Gwyrdd o'r Adolygiad Porth 1 ym mis Tachwedd 2022.<br>• Bwrdd Rhaglen wedi cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol ym mis Rhagfyr 2022.<br>• Cyfarfodydd partneriaeth â 'chanolfannau' sector preifat. | • Cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo Menai.<br>• Achos Busnes Amlinellol (OBC) drafft a dogfennaeth cefnogol perthnasol ar gyfer Adolygiad Porth 2 ym mis Mawrth 2023.<br>• Gweithio gyda'r PMO er mwyn datblygu cytundeb ariannu yn benodol i'r prosiect. | | • Adolygiad Porth 2 wedi symud i fis Mawrth 2023 i roi amser i ddatblygu OBC cadarn |



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel. | 180 | £114m | £39.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter** - Prifysgol Glyndŵr yn paratoi'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect i'w ystyried ym mis Medi 2023.<br>• **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol** - Prifysgol Bangor wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio i ddatrys newidiadau i elfen arian cyfatebol y prosiect. |





Cyng. Dyfrig Siencyn
Aelod Arweiniol



Paul Bevan
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter**<br>Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Gwaith parhaus gydag ymgynghorwyr ar ddylunio'n datblygu costau ar sail buddion i gyd-fynd ag amlen ariannu.<br>• Cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn edrych ar opsiynau i lenwi'r bwlch ariannu sydd wedi'i achos gan chwyddiant<br>• Digwyddiad wedi'i ganolbwyntio ar fusnesau wedi'i gynnal gan dîm Cyfansawdd y Brifysgol i adeiladu ymgysylltu. | • Drafftio dogfennau caffael.<br>• Cyflwyno cais am £1.7m o Gronfa Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â'r bwlch ariannu a fydd yn cael ei gyfateb gan gyllid o £1.7m gan Brifysgol Glyndŵr.<br>• Datblygu Achos Busnes Llawn ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Medi 2023. | | • Eglurhad o'r sefyllfa cyllid cyfatebol.<br>• Pwysau costau parhaus.<br>• Datblygu'r Achos Busnes Llawn yn cael ei reoli'n gadarn |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cyfyngiadau lleoli'r Ganolfan yn Safle Diwydiannol Mona wedi'u hadnabod, gan arwain at benderfyniad i archwilio lleoliadau amgen a chyllid cyfatebol cysylltiedig. | • Datrys y materion lleoliad a chyllid cyfatebol a chyflwyno cais i newid priodol.<br>• Aildrefnu Adolygiad Porth 2 unwaith y bydd yr amserlen ddiweddaraf wedi'i chwblhau. | | • Gwaith o ddatblygu'r prosiect wedi'i atal hyd nes bydd y mater cyllid cyfatebol wedi'i ddatrys. |




| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 8. Tabl Olrhain Cynnydd Prosiectau

| Prosiect | Cam Caniatâd | | | | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 | Cam 6 | Cam 7 | Cam 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd | Cynllunio llawn / Caniatâd | Amodau wedi'u gweithredu | Pennu cyd-destun y Prosiect | Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Approval of the Full Business Case | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd |
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | |
| Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | 🕒 | | | | | | |
| Campysau Cysylltiedig | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | 🕒 | | | | | | |
| Yr Ychydig % Olaf | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Cydnerth (Morlais) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Trawsfynydd | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | 🕒 | | | | | | |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) | Dan adolygiad | | | | | | | | | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen) | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Porth Caergybi, Ynys Môn | Gorchymyn Adolygu Harbwr wedi'i gyflwyno a Thrwydded Morol wedi'i rhoi | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | ✓ | ✓ | 🕒 | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Safle Strategol Bodelwyddan | Prosiect wedi'i dynnu'n ôl | | | | | | | | | | | |
| Porth y Gorllewin, Wrecsam | Mabwysiadu'r CDLl i'w gwblhau | | | | ✓ | 🕒 | | | | | | |
| Neuadd Warren, Brychdyn | Mabwysiadu'r CDLl i'w gwblhau | | | | 🕒 | 🕒 | | | | | | |
| Parc Bryn Cegin, Bangor | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Hwb Economi Wledig Glynllifon | 🕒 | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |
| Fferm Sero Net Llysfasi | Prosiect wedi'i dynnu'n ôl | | | | | | | | | | | |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ✓ | 🕒 | | | | | |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 🕒 | | | |

# 9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2022




| | | OBC | Dechrau ar y Safle | Cwblhau Prosiect |
|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Rhag-21 | Ion-22 | Rhag-25 |
| | Coridorau Cysylltiedig | Meh-23 | Ion-24 | Maw-26 |
| | Campysau Cysylltiedig | Meh-23 | Ion-24 | Maw-26 |
| | Yr Ychydig % Olaf | Gorff-22 | Medi-23 | Rhag-24 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Gorff-23 | Meh-24 | Meh-26 |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) | I'w Gadarnhau | | |
| | Trawsfynydd | Hyd-23 | Ion-25 | Ebr-31 |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Chwef-24 | Mai-25 | Mai-27 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Maw-23 | Ion-24 | Ion-34 |
| Tir ac Eiddo | Porth Caergybi, Ynys Môn | Ebr-23 | Awst-23 | Medi-25 |
| | Neuadd Warren, Brychdyn | Ion-24 | Maw-25 | Ion-26 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych | Meh-23 | Chwef-24 | Tach-24 |
| | *Prosiect wedi tynnu allan( Safle Strategol Bodelwyddan)* | n/a | | |
| | Parc Bryn Cegin, Gwynedd | Medi-23 | Awst-24 | Meh-25 |
| | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Ion-24 | Maw-25 | Ion-26 |
| Arloesi Mewn Gweithgynhyrchu Uwch | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Ion-23 | Hyd-23 | Ion-24 |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Ebr-22 | Tach-23 | Ebr-25 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Awst-21 | Meh-23 | Rhag-24 |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | I'w Gadarnhau | | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Maw-23 | Ion-24 | Ion-26 |

- Cyfnod Datblygu a Chymeradwyo Achos Busnes (Cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol cyn caffael)
- Cam Caffael a Chyflawni Prosiect (Yn cynnwys cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar ôl caffael)
- Dechrau ar y Safle
- Cyfnod Gweithredol a Gwireddu Manteision

*Proffil cyflawni yn unol ag Achos Busnes y Portffolio 2022. Os yw Achos Busnes Amlinellol neu Achos Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo mae'r ffigyrau wedi'u diweddaru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

# 10. Tabl Olrhain - Trosolwg o gyflawni (Rhagfyr 2022)

| | | Targedau Achos Busnes y Portffolio 2020 | | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd wedi'u | | | | Gwahaniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC/FBC** | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | 50 | 80 | 7.3 | FBC | 12 | 33 | 3.0 | -38 | - 47 | - 4.3 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 35 | 150 | 4.0 | OBC | 15 | 130 | 4.0 | -20 | -20 | 0 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | 45 | 120 | 9.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Campysau Cysylltiedig | 35 | 0 | 21 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | 50 | 100 | 36 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 60 | 90 | 28.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) | 20 | 20 | 97.7 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ynni Lleol Blaengar | 120 | 180 | 106.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Trawsfynydd | 230 | 510 | 400 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | 220 | 360 | 43.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Warren Hall, Brychdyn | 235 | 440 | 70 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | *Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl*** (Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan)* | | | | | | | | | | |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | 20 | 50 | 74 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | 30 | 50 | 6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Porth Caergybi | 545 | 930 | 80 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 25 | 40 | 13 | OBC | 45 | 96 | 13 | +20 | +56 | 0 |
| | *Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl*** (Fferm Sero Net Llysfasi)* | | | | | | | | | | |
| | | 20 | 0 | 12.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 45 | 70 | 29.9 | OBC | 33 | 61 | 14.7 | -12 | -9 | -15.2 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | 60 | 90 | 9.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf** | | 2,185 | 3,830 | 1,146 | OBC<br>1 FBC | 90 | 190 | 30.7 | -50 | -20 | -19.5 |

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio    ** OBC - Achos Busnes Amlinellol, FBC - Achos Busnes Llawn
*** Targedau ar gyfer y prosiect sydd wedi'i dynnu'n ôl yn dal wedi'u cynnwys fel rhan o gyfanswm targedau'r Cynllun Twf.

# 11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2022

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 £m * | 2022/23 £m | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | 2030/31 £m | 2031/32 | 2032/33 £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.39 | 0.79 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 1.46 | 1.47 | 1.01 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 1.00 | 3.83 | 4.04 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.29 | 3.88 | 5.83 | 5.83 | 4.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.33 | 4.44 | 1.10 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.61 | 5.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 | 9.85 | 4.92 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 2.46 | 2.46 | 2.46 | 2.46 | 2.46 | 2.46 | 2.46 | 2.47 | 2.47 | 2.47 | 24.63 |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 2.96 | 4.92 | 9.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 19.70 |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.19 | 1.77 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| | *Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl** (Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan)* | | | | | | | | | | | | | | |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 1.97 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 1.48 | 4.43 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 9.85 | 17.24 | 7.38 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 7.20 | 2.65 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | *Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl** (Fferm Sero Net Llysfasi)* | | | | | | | | | | | | | | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 2.12 | 3.91 | 3.65 | 0.17 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 1.25 | 1.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| **Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)** | | | | | | | | | | | | | | | 3.60 |
| **Heb ei glustnodi - Cyllid y Cynllun Twf** | | | | | | | | | | | | | | | 12.70 |
| **Heb ei glustnodi - Cronfa Cyflawni'r Portffolio** | | | | | | | | | | | | | | | 7.00 |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | | | | | | | | 240.00 |

** proffil 2021/22 yw'r gwariant gwirioneddol. Mae'r proffil sy'n weddill fel y rhagwelwyd yn Achos Busnes Portffolio 2022.*

**** Targedau ar gyfer y prosiect sydd wedi'i dynnu'n ôl yn dal wedi'u cynnwys fel rhan o gyfanswm targedau'r Cynllun Twf.*

# 12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Proffil 22/23 (£m) | YTD Gwirioneddol | Amrywiad (£m)* | Sail Resymegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 1.7 | 1.64 | 0.06 | Gwariant 2022-23 yn unol â'r proffil. Dau hawliad wedi'u proses, ym mis Gorffennaf a mis Hydref 2022. Un hawliad yn weddill ddechrau 2023. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | *Prosiect Wedi'i Dynnu'n ôl*** (Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan)* | | | | | |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio. |
| | *Prosiect wedi'i dynnu'n ôl (Fferm Sero Net Llysfasi)* | | | | | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | | **Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)** | **0.56** | **0.00** | **-0.56** | **Rydym yn rhagweld defnyddio £434k yn ystod 2022/23.** |
| | | **Cyfanswm** | **2.26** | **1.64** | **-0.62** | **Gweler uchod** |

* Amrywiaeth yw'r gwahaniaeth rhwng y proffil a gynlluniwyd (Achos Busnes y Portffolio 2022) a gwariant Gwirioneddol y Flwyddyn Hyd Yma (YTD). Ffigyrau YTD hyd at ddiwedd Rhagfyr 2022.

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Nod y prosiect yw ceisio gwella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau symudol ar y prif ffyrdd a rheilffyrdd yn y Gogledd, gan alluogi gwasanaethau ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol ledled y rhanbarth. Canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau ffibroptic sy'n hanfodol ar gyfer darparu band eang 4G, 5G a gigabit. |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd y prosiect yn ceisio cyflymu datblygiad ystod o opsiynau cysylltedd digidol gyda ffocws cyfredol ar 18 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | Buddsoddi mewn seilwaith i gysylltu â rhwydwaith y National Grid a monitro effeithiau amgylcheddol morol. Bydd hyn yn galluogi cynnydd yn y defnydd o dyrbinau gan ddatblygwyr morol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) | Prifysgol Bangor | Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Trawsfynydd | Cwmni Egino | Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn. |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | *Mae prosiect safle Strategol Allweddol Bodelwyddan wedi'i dynnu'n ôl. Nid oes prosiect newydd yn ei le wedi'i adnabod eto.* | | |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg |
| | Porth Caergybi | Stena Line | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | *Mae prosiect Fferm Sero Net Llysfasi wedi'i dynnu'n ôl. Nid oes prosiect newydd yn ei le wedi'i adnabod eto.* | | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| | Canolfan Biotechnoleg | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Amgylcheddol (CEB) | | diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **15 Mawrth, 2023** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2022/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2022/23

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2022/23 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2023

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2022/23 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2022→ Ebrill, 2023**
**[Fersiwn dyddiedig 08/03/23]**



## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol.  Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma.  Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2022 (31/05/22)** | **Mai, 2022 (31/05/22)** |
| Ethol Cadeirydd: 2022/23 | Ethol Cadeirydd: 2022/23 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2022/23 | Ethol Is-gadeirydd: 2022/23 |
| | |
| **Mehefin, 2022 (20/06/22)** | **Mehefin, 2022 (21/06/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2021/22 | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2021/22 |
| Enwebu Aelodau Sgriwtini i Wasanaethu ar Banelau a Byrddau | Enwebu Aelodau Sgriwtini i Wasanaethu ar Banelau a Byrddau |
| | Adroddiad Cynnydd Ch 4 2021/22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Medi, 2022 (26/09/22) – Ch1** | **Medi, 2022 (26/09/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2022/23 | Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (Gofal Cymdeithasol) |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2021/22 |
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Hydref, 2022 (19/10/22)** | **Hydref, 2022 (18/10/22)** |
| Tlodi a'r Heriau Costau Byw | Arolwg Estyn o'r Awdurdod Addysg Lleol |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | • Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg<br>• Adborth y Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2021/22 | Rhaglen Arfor |
| | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Tachwedd, 2022 (22/11/22) - Ch2** | **Tachwedd, 2022 (23/11/22) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2022/23 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2021/22 |
| Data Poblogaeth: Cyfrifiad 2021 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2021/22 |
| Adroddiad Awdurdod Lleol Ynys Môn ar Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022: Chwaraeon Cymru | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru: 2021/22<br>• Adroddiadau Cynnydd Ch1: 2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Ionawr, 2023 (19/01/23) – Cyllideb 2023/24 (bore)** | **Ionawr, 2023 (17/01/23)** |
| Sefydlu Cyllideb 2023/24 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/28 – ymgynghorai statudol |
| Cynllun Drafft y Cyngor: 2023-2028 ac adroddiad ar yr ymgysylltu ac ymgynghori | Adroddiadau Cynnydd Ch2: 2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Ionawr, 2023 (19/01/23) (prynhawn)** | |
| Arolwg AGC: Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Gwerthuso Perfformiad (Hydref, 2022) | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | |
| | |
| **Chwefror, 2023 (28/02/23) – Cyllideb 2023/24** | **Chwefror, 2023 (07/02/23) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2023/24 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2021/22 |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Cynllun y Cyngor 2023/2028 | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Mawrth, 2023 (14/03/23) - Ch3** | **Mawrth, 2023 (15/03/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2022/23 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2021/22 |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Diweddariad - er gwybodaeth:<br>• Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2023/24 | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Ebrill, 2023 (19/04/23)** | **Ebrill, 2023 (19/04/2023)** |
| Strategaeth Plant a Phobl Ifanc mewn Gofal | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant (i’w chadarnhau) |
| | Strategaeth Gwella Trefi Ynys Môn |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |

**Eitemau i’w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Polisi Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Strategaeth Gwasanaethau Clinigol |
| Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Polisi Rheoli Asedau Corfforaethol 2021/26 | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Cyfrifiad 2021 | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Cynllun Rheoli’r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (20/06/2023) | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2022/23 (Mehefin, 2023) |
| | Cynllun Rheolaeth Cyrchfan (21/06/2023) |

This page is intentionally left blank